RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
09/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/01/2025

# Adolygiad lefel uchel o gynlluniau sector bwyd Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal o dan y Cynllun Datblygu Gwledig

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 ISBN Digidol 978-1-83715-173-8

Adolygiad lefel uchel o gynlluniau sector bwyd Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal o dan y Cynllun Datblygu Gwledig
Adroddiad Gwerthuso

Awduron: Ioan Teifi, Endaf Griffiths

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Griffiths, E; Teifi; I. (2025). Adolygiad lefel uchel o gynlluniau sector bwyd Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal o dan y Cynllun Datblygu Gwledig: Adroddiad Gwerthuso. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 09/2025.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-lefel-uchel-o-gynlluniau-sector-bwyd-llywodraeth-cymru-gyflawnwyd

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'r farn honno o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad ....... 3
2. Methodoleg ....... 5
3. Y sector bwyd a diod yng Nghymru ....... 10
4. Adolygiad lefel uchel ar effeithiau, aliniad, a gwersi a ddysgwyd ....... 30
5. Casgliadau ac argymhellion ....... 52

Atodiad 1: Cynlluniau a phrosiectau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad ....... 60

Atodiad 2: Canllaw Trafod ar gyfer cyfweliadau ag arweinwyr cynlluniau ....... 67

**Rhestr tablau**

Tabl 3.1: Nifer y busnesau a'u cyflogaeth rhwng 2014 a 2020 ....... 10

Tabl 4.1: Trosiant sector Bwyd a Diod yng Nghymru a'r DU, 2009 i 2021 ....... 43

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 3.1: Busnesau bwyd a diod yn ôl bandiau maint trosiant yng Nghymru ac yn gyffredinol ledled y DU ....... 11

Ffigur 4.1: Y gweithgareddau a wnaed gan brosiectau a chynlluniau bwyd a diod wedi'u hariannu gan yr RDP ....... 31

**Geirfa**

BRES: Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth

CFfI: Clybiau Ffermwyr Ifanc

CSCDS: Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

CThEF: Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

DU: Y Deyrnas Unedig

FBIS: Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd

FSC: Sgiliau Bwyd Cymru

GVA: Gwerth ychwanegol gros

IDBR: Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesau

RBISF: Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig: Bwyd

RDP: Y Cynllun Datblygu Gwledig

SSU: Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy

TAW: Treth ar Werth

TGCh: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

TWE: Talu wrth Ennill

UE: Yr Undeb Ewropeaidd

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Wavehill gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad lefel uchel ar y cymorth a ariannwyd gan Gynllun Datblygu Gwledig (RDP) 2014 i 2020 ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru. Roedd hyn yn rhan o gomisiwn ehangach gan Lywodraeth Cymru lle rhoddwyd y dasg hefyd i Wavehill gynnal gwerthusiadau penodol o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd (RBISF). Roedd y cyntaf yn un o'r cynlluniau blaenllaw ar gyfer bwyd a diod, wedi'u hariannu o dan yr RDP. Mae'r holl ymyriadau a ariannwyd gan yr RDP bellach wedi dod i ben neu wrthi'n gorffen erbyn mis Mehefin 2023. O ganlyniad, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad ehangach o'r holl brif ddarpariaethau bwyd a diod i helpu i lywio'r cymorth yn y dyfodol ar ôl Brexit. Roedd gan yr adolygiad sawl nod:

- Cynnal asesiad eang a mesuradwy o'r effaith economaidd ac amgylcheddol ledled cynlluniau sector bwyd Llywodraeth Cymru a oedd wedi'u hariannu gan yr RDP.
- Asesu aliniad y cymorth sydd ar gael ledled sector bwyd Llywodraeth Cymru, a sut mae hyn yn cyd-fynd yn ehangach ag amcanion polisi strategol Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd (UE).
- Darparu argymhellion a gwersi a ddysgwyd, gan roi ystyriaeth benodol i fylchau posibl yn y ddarpariaeth ar draws y sector, taith busnesau bwyd wrth dyfu a datblygu, a'r hyn y gellid ei wneud yn wahanol yn y dyfodol, er mwyn helpu i lywio'r broses o gynnig cymorth yn y dyfodol.

1.2 Roedd y fanyleb wreiddiol yn gofyn am adolygiad lefel uchel o bedwar cynllun blaenllaw sef Helix,[1] Cywain,[2] Sgiliau Bwyd Cymru (FSC),[3] a'r FBIS. Fodd bynnag, roedd Wavehill hefyd wedi ymgorffori darpariaethau bwyd a diod eraill a ariannwyd gan yr RDP yn yr adolygiad hwn, pan oedd data gwerthuso ar gael amdanynt. Mae rhestr lawn o'r darpariaethau cymorth sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn i'w gweld ym Mhennod 3.

1.3 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i drefnu fel a ganlyn:

---

[1] Arloesi Bwyd Cymru
[2] Menterabusnes.Cymru
[3] Sgiliau Bwyd Cymru

- Mae Pennod 2 yn disgrifio’r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr adolygiad hwn.
- Ym Mhennod 3 amlinellir cyd-destun yr adroddiad drwy roi trosolwg o’r sector bwyd a diod yng Nghymru, disgrifiad o’r amcanion polisi, a chynlluniau a ariannwyd gan yr RDP (2014 i 2020) a gynlluniwyd i gyflawni’r amcanion hynny.
- Mae Pennod 4 yn cyflwyno prif ganfyddiadau ein hadolygiad, o ran yr effeithiau (economaidd ac amgylcheddol yn bennaf), aliniad strategol, a’r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol.
- Mae Pennod 5 yn cloi’r adroddiad drwy gynnig cyfres o argymhellion.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae’r fethodoleg yn bodloni’r gofynion a nodir yn y fanyleb, sef gofyn am synthesis o’r data monitro sydd ar gael a thystiolaeth werthuso eilaidd ar gyfer y pum cynllun blaenllaw, wedi’i ategu gan gyfweliadau ansoddol ag arweinwyr cynlluniau. Aeth Wavehill y tu hwnt i’r gofynion hynny drwy hefyd adolygu deunyddiau gwerthuso a chynnal cyfweliadau ag arweinwyr cynlluniau perthnasol eraill. Ynghyd â’r amcanion ymchwil eang a amlinellwyd yn y cyflwyniad, roedd y fanyleb hefyd wedi nodi’r cwestiynau ac/neu ofynion ymchwil penodol canlynol:

- Cynnal asesiad ehangach o’r cymorth oedd ar gael ar draws cynlluniau’r sector bwyd o dan yr RDP, gyda phwyslais arbennig ar unrhyw ganlyniadau ac effeithiau economaidd ac amgylcheddol mesuradwy ehangach.
- A yw cynlluniau sector bwyd yr RDP a nodir yn y gwerthusiad hwn yn cyd-fynd ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015) ac amcanion polisi strategol perthnasol eraill Llywodraeth Cymru?
- I ba raddau y mae’r cynlluniau wedi mynd i’r afael yn llwyddiannus â’r tair thema drawsbynciol,[4] ac i ba raddau y maent wedi cefnogi ymrwymiadau Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ‘Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr’?
- I ba raddau y maent wedi mynd i’r afael ag amcanion trawsbynciol y Comisiwn Ewropeaidd (1. Arloesi; 2. Cynaliadwyedd Amgylcheddol; a 3. Newid yn yr Hinsawdd)?
- Pa wersi y gellir eu dysgu ac argymhellion ar gyfer newid y gellid ei wneud i wneud y mwyaf o’r potensial ar gyfer ystod gyfan o gynlluniau (gan gynnwys FBIS a RBISF) i gael yr effaith fwyaf posibl wrth symud y strategaeth newydd yn ei blaen?

2.2 Penodwyd Wavehill yn y lle cyntaf ym mis Ionawr 2022 i gynnal y gwerthusiad hwn, ac mae wedi gwneud hynny mewn dau gam. Datblygwyd Adroddiad Fframwaith Dechreuol a Gwerthuso Cam 1 ym mis Mehefin 2022, yn seiliedig ar ymarfer cwmpasu cynhwysfawr a oedd wedi cynnwys:

[4] Y tair thema drawsbynciol oedd: (1) Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhyw, a’r Iaith Gymraeg; (2) Datblygu Cynaliadwy; (3) Mynd i’r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

- Naw cyfweliad cwmpasu â swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn gysylltiedig â llunio a gweinyddu'r cynlluniau, ynghyd ag arweinwyr polisi bwyd a diod;
- Saith cyfweliad â rhanddeiliaid allanol (cynrychiolwyr y diwydiant yn bennaf);
- Adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth ehangach, gan gynnwys adolygu polisïau a mapio tirwedd y cymorth.

2.3 Roedd y cam cyntaf hwn yn gymorth i adeiladu ein dealltwriaeth o'r sector bwyd a diod yng Nghymru, a'r wybodaeth allweddol wedi'i chyflwyno ym Mhennod 3. Roedd y cam cyntaf hwn hefyd yn bwysig wrth nodi'r cynlluniau perthnasol i'w cynnwys yn ein hadolygiad. Gan fod tua 100 i 150 o gynlluniau a phrosiectau wedi'u hariannu o dan RDP 2014 i 20, nodwyd 34 gennym fel rhai sy'n cefnogi'r sector bwyd a diod ar ryw lefel, a barnwyd bod 19 o'r rheini'n ddigon perthnasol i'w cynnwys yn ein hadolygiad. O ran y meini prawf a ddefnyddiwyd i bennu pa mor berthnasol oedd y cynlluniau, dyma'r elfennau a ystyriwyd yn bennaf: a oedd y prosiectau/cynlluniau'n darparu cymorth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod, ac a oeddent yn canolbwyntio'n benodol ar y sector bwyd a diod. Roedd y prosiectau neu'r cynlluniau yr ystyriwyd nad oeddent yn ddigon perthnasol yn bennaf yn rhai a oedd yn canolbwyntio mwy ar ymchwil (yn hytrach na chefnogi busnesau'n uniongyrchol), yn rhai oedd â ffocws 'niche' (e.e. prosiectau'n canolbwyntio ar hydroponeg, helgig, tatws sarpo, ac ati), neu rai a oedd yn canolbwyntio mwy ar amaethyddiaeth yn hytrach na bwyd a diod. Yn Atodiad 1 ceir rhestr lawn o'r holl brosiectau a chynlluniau a ariannwyd o dan yr RDP, gan gynnwys manylion pa rai sydd wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad a'r rhesymeg dros eu cynnwys ai peidio.

2.4 Ar ôl nodi'r holl gynlluniau perthnasol, aethom ati wedyn i gysylltu ag arweinwyr pob un i ofyn am ddeunyddiau gwerthuso i'w cynnwys yn ein hadolygiad, ac i drefnu cyfweliad agored, ar-lein (cyfweliadau lled-strwythuredig oedd y rhain). O'r 19 cynllun, Wavehill oedd yn gyfrifol am gyflawni gwerthusiadau unigol o 11 ohonynt;[5] yn ogystal, llwyddom i gael adborth ac/neu ddeunyddiau gwerthuso o dri chynllun arall, sy'n golygu bod ein hadolygiad wedi cynnwys 14 o'r 19 cynllun perthnasol. Yn hollbwysig, Wavehill ei hun oedd wedi gwerthuso pedwar o'r pum cynllun blaenllaw, a chafwyd adborth gan arweinydd y pumed prosiect, a rhannwyd yr adroddiad gwerthuso hefyd. Roedd y pump y barnwyd eu bod yn berthnasol, ond heb eu

[5] Comisiynwyd y rhain dros nifer o flynyddoedd, yn sgil Wavehill yn ennill y tendr ar ôl ymarferion caffael agored, cystadleuol.

cynnwys yn ein hadolygiad, yn cynnwys un prosiect a dynnwyd yn ôl yn y pen draw (Datblygu Organig Cymru), a phedwar lle nad oeddem wedi llwyddo i ymgysylltu â'r corff arweiniol a choladu'r deunyddiau gwerthuso (Menter Strategol Llaeth, Cydweithredu ar gyfer Twf, Clwstwr Garddwriaeth, a'r cynllun Cydweithredu a Datblygu Cadwyn Gyflenwi Twristiaeth Bwyd Cymru).

2.5 Cynhaliwyd cyfweliadau â chyfanswm o 10 arweinydd cynllun fel rhan o'r adolygiad hwn. Roedd y canllaw trafod ar gyfer y cyfweliad yn cynnwys cwestiynau i gael eu barn ar y canlynol (ceir rhestr lawn o'r cwestiynau yn Atodiad 2):

- Barn gyffredinol am y pecyn cymorth i gynhyrchwyr bwyd a diod a ariannwyd o dan RDP 2014 i 20;
- Sut mae'r darpariaethau hynny yn cyd-fynd â'i gilydd, gan gynnwys unrhyw fylchau amlwg neu ddyblygu;
- Effeithiau economaidd ac amgylcheddol ledled y cynlluniau hynny;
- Y prif wersi y gellir eu dysgu o ddarparu'r gwahanol wasanaethau cymorth;
- Elfennau pwysicaf y cymorth i'w cadw wrth symud ymlaen;
- Sut hoffai'r arweinwyr weld y cynlluniau'n cael eu cynnal yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd i'w gwneud yn fwy integredig.

2.6 Cynhaliwyd sesiwn gweithdy gyda staff polisi a gweithredu allweddol o Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2023; archwiliodd y gweithdy hwn themâu tebyg i'r rhai yn y cyfweliadau ag arweinwyr cynlluniau, gydag un rhan o'r sesiwn yn edrych yn ôl ar berfformiad ac effeithiau'r darpariaethau, ac ail ran yn edrych ymlaen a gwersi ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

2.7 Yn olaf, ar ôl casglu deunydd gwerthuso ar gyfer 14 o'r 19 cynllun, cynhaliwyd meta-adolygiad, a asesodd y newidynnau a ganlyn:

- Model cyflawni a maes ffocws pob cynllun;
- Sut mae'n alinio â'r Weledigaeth Strategol ar gyfer y sector;
- Perfformiad y gweithredu (gan gynnwys a gyflawnodd y prosiect ei amcanion, ei gryfderau, a'r prif heriau);
- Effeithiau (gan gynnwys economaidd ac amgylcheddol);
- Gwersi ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol (gan gynnwys elfennau i'w cadw, meysydd i'w gwella, a gwersi eraill).

2.8 Mae rhai cyfyngiadau amlwg yn y gwerthusiad sy'n bwysig tynnu sylw atynt yma. Fel y nodwyd eisoes, nid oeddem wedi gallu cael gafael ar ddeunyddiau gwerthuso ar gyfer yr holl brosiectau a chynlluniau a ystyriwyd yn berthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn. Ymhlith y prosiectau a chynlluniau yr oeddem wedi gallu cael deunyddiau gwerthuso ar eu cyfer, nid oedd rhai wedi'u gorffen ac roeddent yn seiliedig ar ganfyddiadau neu ddadansoddiad interim (gan gynnwys rhai o'r cynlluniau blaenllaw, megis Cywain a Helix). O'r herwydd, nid yw'r adolygiad hwn yn rhoi cyfrif am yr ystod lawn o effeithiau.

2.9 Yn ogystal, roedd y broses o ddynodi prosiectau i fod yn rhai perthnasol neu ddim yn ddigon perthnasol yn seiliedig ar gasgliad o feini prawf bras. Felly, mae'n bosibl bod rhai o'r prosiectau a'r cynlluniau y bernir nad ydynt yn berthnasol wedi creu canlyniadau pwysig i'r sector, tra bod eraill a ystyriwyd yn berthnasol efallai wedi cael ychydig o effaith. Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu bod yr adroddiad yn cynnig dealltwriaeth rannol o effeithiau'r cynlluniau. Wedi dweud hynny, nodwn fod pob un o'r cynlluniau blaenllaw wedi'u cynnwys yn yr adolygiad. Felly, rydym yn hyderus bod yr adroddiad yn casglu'r rhan fwyaf o'r effeithiau a gynhyrchwyd.

2.10 Yn olaf, mae'r astudiaeth wedi'i chyfyngu gan wahaniaethau yn amcanion y cynlluniau a'r prosiectau gwahanol sy'n sail i'r adolygiad hwn a'r dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd i'w gwerthuso. Roedd hyn yn amlwg wrth asesu effaith economaidd y prosiectau a'r cynlluniau priodol. Roedd rhai gwerthusiadau yn fwy trwyadl nag eraill, yn dibynnu ar yr adnoddau wrth law a pha mor berthnasol neu bwysig oeddynt i amcanion y gwerthuso. Er enghraifft, roedd rhai yn seiliedig ar ddata wedi'u rhoi gan yr unigolion/sefydliadau eu hunain yn unig, tra bod eraill yn defnyddio grwpiau cymharu. Dim ond amcangyfrif o effeithiau gros ar fusnesau a roddodd rhai, tra bod eraill yn ceisio nodi effeithiau GVA net. Pan nad oedd yn rhan o gylch gwaith y gwerthusiad, nid oedd eraill wedi ceisio mesur yr effaith economaidd o gwbl. Yn yr un modd, roedd y ffocws ar effeithiau amgylcheddol yn amrywio'n sylweddol o brosiect i brosiect.

2.11 Oherwydd hynny, trwy gydol yr adroddiad hwn, ceisiwn egluro pa gynlluniau a gwerthusiadau y mae pob canfyddiad yn seiliedig arnynt. Pan gyfunir yr effaith economaidd ar draws prosiectau a chynlluniau i gynnig asesiad dangosol o effaith ledled y rhaglen, gwnaethom hynny ar sail y 'nodwedd gyffredin lleiaf', h.y. yr effeithiau gros ar gyfer busnesau.

2.12 Mater arall wrth gyfuno data ar draws gwahanol werthusiadau yw bod rhai busnesau wedi cael eu cefnogi gan nifer o gynlluniau a ariannwyd gan yr RDP. Gallai'r buddion felly fod yn fuddion sydd wedi cyd-doddi i'w gilydd, sy'n ganlyniad mwy nag un ffrwd ariannu. Dylid ystyried i ba raddau y digwyddodd hyn, a'r effeithiau posibl, yng ngwerthusiad Terfyn Rhaglen RDP 2014 i 2020.

# 3. Y sector bwyd a diod yng Nghymru

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer yr adroddiad drwy ddisgrifio'r sector, yr amcanion polisi, a'r gwahanol gynlluniau cymorth sy'n rhan o'r adolygiad hwn.

**Trosolwg o'r sector**

3.2 Bwyd a diod yw un o sectorau busnes mwyaf ei faint yng Nghymru, gan fod â gweithlu o 224,500 o bobl a gwerthiannau blynyddol gros o £23 biliwn o gyfrif y gadwyn gyflenwi bwyd a diod gyfan.[6] Dengys data o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR) sut mae bwyd a diod yn gymharol bwysicach yng Nghymru nag ar lefel y DU, gan gyfrif am 13% o holl fusnesau Cymru yn 2020, o gymharu â llai na 6% yn y DU gyfan (gweler Tabl 3.1 isod).[7] Yn ogystal, yn ôl Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES),[8] roedd y sector yn cyflogi tua 2% o weithlu Cymru bob blwyddyn rhwng 2015 a 2020, o gymharu ag 1.5% ledled Prydain Fawr.

**Tabl 3.1: Nifer y busnesau a'u cyflogaeth rhwng 2014 a 2020**

| | Pob busnes | | Twf mewn unedau busnes o2014 | | % o'r holl fusnesau | | Cyfanswm cyflogaeth | | % yr holl gyflogaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | DU | Cymru | DU | Cymru | DU | Cymru | Cymru | Prydain Fawr[9] | Cymru | Prydain Fawr |
| 2014 | 149,830 | 14,045 | | | 6.6% | 15.6% | | | | |
| 2015 | 151,930 | 14,075 | 1.4% | 0.2% | 6.2% | 14.4% | 24,470 | 421,875 | 2.0% | 1.5% |
| 2016 | 153,015 | 14,055 | 2.1% | 0.1% | 6.0% | 14.1% | 21,860 | 429,200 | 1.7% | 1.5% |
| 2017 | 153,600 | 14,000 | 2.5% | -0.3% | 5.8% | 13.6% | 24,230 | 432,550 | 1.9% | 1.5% |
| 2018 | 155,315 | 14,090 | 3.7% | 0.3% | 5.8% | 13.6% | 24,705 | 432,705 | 1.9% | 1.5% |
| 2019 | 156,050 | 14,130 | 4.2% | 0.6% | 5.7% | 13.3% | 22,510 | 446,055 | 1.8% | 1.5%g |
| 2020 | 155,575 | 13,970 | 3.8% | -0.5% | 5.7% | 13.2% | 23,240 | 452,940 | 1.8% | 1.5% |

(Ffynhonnell: cyhoeddiadau IDBR a BRES, mis Medi 2022)


3.3 Felly, mae bwyd a diod wedi'i nodi yn sector economaidd sydd â blaenoriaeth yng Nghymru.

3.4 Er bod y data hwn yn dangos gostyngiad bychan yn nifer y busnesau sy'n gweithredu yn y sector, byddem yn annog bod yn ofalus yn y dehongliad hwn, gan fod yr IDBR yn seiliedig ar gofnodion TAW a TWE Cyllid a Thollau EF (CThEF).

[6] Perfformiad sector Bwyd a Diod Cymru
[7] Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)
[8] Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (SYG)
[9] Ar lefel Prydain Fawr yn unig y mae data'r Arolwg (BRES) ar gael.

Felly, nid yw'n cofnodi busnesau bach iawn (e.e., llawer o'r rheini o dan y trothwy TAW), y credir eu bod yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r sector. Yn wir, fel y mae Ffigur 3.1 yn ei ddangos, mae sector bwyd a diod Cymru wedi gogwyddo'n drymach tuag at fusnesau bach iawn na'r sector ar lefel y DU (cofnododd 47% o fusnesau bwyd a diod yng Nghymru drosiant o lai na £50,000 yn 2020, o gymharu â dim ond 32% o fusnesau bwyd a diod ar draws y DU).[10] O'r herwydd, un o gyfyngiadau'r IDBR yw ei bod yn debygol o danddatgan gwir nifer y busnesau bwyd a diod sy'n gweithredu yng Nghymru i raddau mwy nag ar gyfer y DU gyfan. Yn anecdotaidd, rydym yn deall i lu o fusnesau newydd gael eu sefydlu yng Nghymru yn ystod y pandemig.[11] Felly, dylid trin y data hwn fel data dangosol yn unig.

**Ffigur 3.1: Busnesau bwyd a diod yn ôl bandiau maint trosiant yng Nghymru ac yn gyffredinol ledled y DU**




Ffynhonnell: cyhoeddiad IDBR, Medi 2022[12]

3.5 Nodwn fod y gwerthusiad economaidd diweddaraf ar y sector a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru[13] wedi canfod mai Cymru sydd â'r gyfran ail uchaf o ficrofusnesau yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod ymhlith gwledydd y DU, gydag 86% yn dod i'r categori hwn yng Nghymru, o gymharu â 79% yn Lloegr, 80% yn yr Alban, a 90% yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn dangos ymhellach oruchafiaeth gymharol microfentrau yn sector bwyd a diod Cymru.

---

[10] Ffynhonnell: Codwyd y data hwn o gyhoeddiad diweddaraf IDBR (Medi 2022)
[11] Adroddwyd hyn gan dîm prosiect Cywain. Mae ein dadansoddiad o ddata Cywain yn dangos bod 89 o fusnesau cyn-sefydlu wedi ymuno â Cywain yn 2020 sy'n cyfateb i 32% o'r holl gleientiaid newydd a gofrestrodd y flwyddyn honno.
[12] Ffynhonnell: Codwyd y data hwn o gyhoeddiad diweddaraf IDBR (Medi 2022)
[13] [Gwerthusiad Economaidd: y sector Bwyd a Diod yng Nghymru (Bwyd a Diod Cymru)]

3.6 Er bod nifer yr unedau busnes yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod ehangach wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, canfu'r gwerthusiad economaidd hefyd fod y mwyafrif o'r rhain yn rhai micro (llai na 10 o gyflogeion) neu'n fach (10 i 49 o gyflogeion). Roedd 260 o ficrofusnesau newydd a 382 o fusnesau bach newydd i'w cael rhwng 2015 a 2021; fodd bynnag, dim ond 26 o fusnesau canolig eu maint (50 i 249 o weithwyr) oedd yng Nghymru, tra bod tri yn llai o fusnesau mawr (250+ o weithwyr), wedi gostwng o 76 i 73, sy'n awgrymu y gallai busnesau fod wedi'i chael yn anodd trosglwyddo o fod yn rhai bach i ganolig, ac o ganolig i fawr.

3.7 Roedd enillion canolrifol blynyddol gweithwyr yn y sector ar gyfer 2021 yn £15,499, wedi gostwng 9.2% ers 2020, yn ôl i lefel debyg i'r hyn a geid yn 2019 (£15,475). Cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector oedd £17,412 yn 2021, gyda gostyngiad o 2.2% ers y flwyddyn flaenorol. Enillai hanner (59%) o weithwyr yng nghadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru y cyflog byw neu'n uwch yn 2021, i fyny o 51% yn 2020.[14]

**Cyd-destun polisi**

3.8 Fel sector economaidd â blaenoriaeth, mae bwyd a diod wedi cael cryn gefnogaeth a ffocws o ran polisi. Lluniodd Llywodraeth Cymru strategaeth ddeng mlynedd 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 i 2020',[15] ynghyd â chynllun gweithredu manwl 'Tuag at Dwf Cynaliadwy 2014 i 20', a oedd yn cynnwys ffocws mawr iawn ar gyflawni twf economaidd yn y sector, gan gynnwys targed uchelgeisiol o gynyddu gwerthiant 30% erbyn 2020.[16]

3.9 Ymhellach, dangosai'r strategaeth a'r cynllun gweithredu bwyslais o'r newydd ar ddatblygu cynaliadwy mewn polisïau bwyd a diod, gan fod â ffocws cryf ar elfennau amgylcheddol cynhyrchu a bwyta. Roeddent yn ymgorffori gweledigaeth i fwyd a diod Cymru dyfu mewn modd cynaliadwy a phroffidiol, ac yn arddangos rôl cynlluniau a arweinir gan y Llywodraeth wrth gefnogi'r weledigaeth hon.

3.10 Roedd Tuag at Dwf Cynaliadwy 2014 i 20 yn cynnwys chwe llinyn:

1. Sefydlu Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i fod yn llais i'r diwydiant;
2. Sefydlu hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru i hyrwyddo'r sector yn fwy cydlynol;

[14] Ibid.
[15] Llywodraeth Cymru, Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 i 2020
[16] Llywodraeth Cymru, Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 i 2020

3. Rhaglen Addysg, Hyfforddiant, Sgiliau ac Arloesi, i sicrhau bod gan y sector weithlu wedi'i baratoi ar gyfer twf;
4. Darparu cymorth ar gyfer twf busnes a datblygu'r farchnad;
5. Diogelwch bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd;
6. Monitro a gwerthuso.

3.11 Roedd y trydydd a'r pedwerydd llinyn yn cynrychioli prif ffocws y gweithgarwch, gan gyfrif am 34 o'r 48 o gamau gweithredu yn y cynllun.

3.12 Yn y cynllun disgrifir uchelgeisiau gwahanol busnesau bwyd – mae rhai'n dymuno tyfu a chyflenwi cwsmeriaid mawr, tra bod gan eraill fwy o ddiddordeb mewn cyflenwi a chynnal marchnadoedd lleol, ac efallai'n fodlon ar lefelau tyfu is. Y prif ffocws oedd cefnogi'r cyntaf, ac mae gan nifer o'r cynlluniau bwyd a diod gylch gwaith penodol i gefnogi 'busnesau sydd â photensial twf uchel' er mwyn cynhyrchu'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad. Fel rhan o hyn, amlinellai'r cynllun gweithredu hefyd yr angen i greu llwybr gwell ar gyfer tyfu i fusnesau micro a bach nad oeddent yn gallu mynd y tu hwnt i werthu mewn marchnadoedd lleol. Mae hwn yn bwynt allweddol, ac yn ymateb i oruchafiaeth microfusnesau bach iawn yng Nghymru (fel y dangoswyd yn yr adran flaenorol). Yn wir, roedd hwn hefyd yn bwynt allweddol a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cwmpasu, lle dywedwyd mai amcan polisi allweddol oedd mynd i'r afael â'r diffyg symud drwy gategorïau maint busnes (o ficro i fach, i ganolig, i fawr). Fel y disgrifiodd un arweinydd polisi Llywodraeth Cymru:

> "Pan edrychwch ar yr ystadegau ar broffil y busnesau bwyd a diod dros y degawd diwethaf, gyda'i gilydd mae'r gwerth (gwerthiannau) wedi bod yn cynyddu'n sylweddol. Mae nifer y busnesau hefyd wedi cynyddu'n sylweddol, ond mae'r cynnydd wedi bod mewn busnesau micro a bach iawn. Dydyn ni ddim wedi llwyddo i gael busnesau micro i droi yn fusnesau bach a'r rhai bach yn ganolig – mae nifer y cwmnïau canolig a mawr wedi aros yr un fath. Felly mae'r cynnydd mewn gwerthiant wedi'i yrru gan lawer o rai bach yn gwneud ychydig mwy, ac un neu ddau o rai mawr yn gwneud llawer mwy, ond yr hyn nad oes gennym ni yw piblinell iach o rai llai yn symud i fod yn rhai mwy o faint." (Cyfweliad cwmpasu)

3.13 Aeth y swyddog polisi yn Llywodraeth Cymru yn ei flaen i ddisgrifio'r sector fel un sydd â "dosbarthiad siâp barbwysau" (barbell) o ran nifer y gweithwyr a gwerth gwerthiannau. Ar un pen, mae nifer fach iawn o fusnesau mawr (tua 10) sydd â

gweithlu mawr a gwerthiant sylweddol. Ar y pen arall, mae cannoedd o fusnesau bach iawn, sy'n aml yn cynnwys y perchennog yn unig; gyda'i gilydd, maent yn cynhyrchu lefel dda o werthiannau, ond yn unigol nid ydynt yn cynhyrchu llawer o werth a chyflogaeth gyfyngedig (yn enwedig, cyflogaeth ddiogel sy'n talu'n dda). Yn olaf, ychydig iawn o weithgarwch sydd yng nghanol y sector.

3.14 Er bod y 'canol coll' yn her gyffredin ar draws diwydiannau Cymru, nododd rhanddeiliaid ei fod yn fater amlwg iawn i'r sector bwyd a diod, oherwydd nodweddion penodol busnesau sy'n gweithredu o'i fewn. Mae'n ddiwydiant elw isel sydd â heriau yn ymwneud ag oes silff, pecynnu a dosbarthu. Ymhellach, dangosodd yr ymgynghoriad cwmpasu ddiffygion mewn gwybodaeth a sgiliau yn y sector, o ran rheolaeth ariannol a chael gafael ar gyllid. Esboniodd un o'r partneriaid darparu a gyfwelwyd gennym fod y sector wedi'i nodweddu gan lawer o weithredwyr bychain, ac unigolion sy'n angerddol am eu cynnyrch ond sy'n llai medrus mewn rheolaeth busnes ac ariannol, o gymharu â sectorau eraill. O'r herwydd, mae cael gafael ar y cyllid sydd ei angen i ehangu (e.e., i symud o'r gegin i gyfleuster cynhyrchu) yn her arbennig i'r sector bwyd a diod, ac yn sector a ystyrir yn 'risg uchel' gan fenthycwyr ariannol. Yn wir, gofynnodd Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru 2013 i 300 o fusnesau nodi'r tri chyfyngiad mwyaf ar eu datblygiad; a'r cyfyngiadau a nodwyd amlaf oedd gorbenion/costau uwch (29%) a mynediad at gyllid (29%).[17]

3.15 Yn ogystal, awgrymodd yr arolwg cynhyrchwyr bwyd a diod mai dim ond 45% o fusnesau oedd ag achrediad busnes ar y pryd (e.e., Consortiwm Manwerthu Prydain, Safe and Local Supplier Approval [SALSA], Tractor Coch), tra dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod y wybodaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod y ffigur hyd yn oed yn is. Mae hwn yn ddangosydd procsi defnyddiol ar gyfer uchelgeisiau tyfu, gan fod cyflawni achrediadau diwydiant cydnabyddedig yn anghenraid i fusnesau bwyd os ydynt yn realistig ynghylch targedu cwsmeriaid mwy eu maint (fel archfarchnadoedd). O'r herwydd, mae cynyddu nifer y busnesau sydd ag achrediadau bellach yn nod allweddol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn y weledigaeth strategol bresennol ar gyfer y sector.[18]

[17] Llywodraeth Cymru, Cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru: arolwg, Mai 2013
[18] Bwyd a Diod Cymru, Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021 (Busnes Cymru: Bwyd a Diod)

3.16 Er bod swyddogion polisi wedi trafod yr angen i wella'r nifer o fusnesau sy'n trosglwyddo o fusnesau micro a bach i fusnesau canolig eu maint, mae ymchwil diweddar a gynhaliwyd gan Wavehill yn awgrymu y byddai targedu buddsoddiad at fusnesau mwy o faint yn creu gwell elw economaidd i Gymru.[19] Comisiynwyd Wavehill yn ddiweddar gan BIC Innovation i roi cipolwg ar effaith lluosydd ehangu busnesau bwyd a diod yng Nghymru, ynghyd â heriau a chyfleoedd y gadwyn gyflenwi. Comisiynwyd yr ymchwil hwn trwy brosiect Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy BIC. Canfu fod busnesau llai o faint (<50 o staff) yn cynhyrchu buddion lluosydd llawer llai i Gymru, oherwydd y colledion llawer mwy o faint yn mynd o'r cwmnïau hyn i gadwyni cyflenwi y tu allan i'r wlad. Yn gyffredinol, ymhlith y busnesau oedd yn rhan o'r astudiaeth, dim ond 40% oedd cyfran gwariant y gadwyn gyflenwi a oedd yn aros yng Nghymru. Er bod awydd i ddefnyddio contractwyr o Gymru, mae'r diffyg opsiynau ar gyfer offer cyfalaf a gweithgareddau adeiladu mwy arbenigol, ynghyd â'r ffaith bod cadwyni cyflenwi yn y sector ategol hwn i raddau helaeth y tu allan i Gymru, yn cyfyngu ar y buddion a gedwir yn lleol. Er enghraifft, canfuwyd bod pecynnu yn cael ei gynhyrchu yn bennaf yn Ewrop, gydag ychydig iawn o gyflenwyr pecynnu o Gymru yn gallu bodloni'r raddfa a'r cyfleoedd ar gyfer bwyd a diod o Gymru. Mae'r capasiti a'r gallu annigonol yn arwain at anfon cynhyrchion i'w pecynnu yn Lloegr, ac yn lleihau cydnerthedd y sector a'i werth ychwanegol.

3.17 Ar y naill law, mae hyn yn awgrymu y byddai buddsoddi mewn busnesau mwy o faint yn strategaeth well ar gyfer gwireddu uchelgeisiau twf Llywodraeth Cymru. Ar y llaw arall, nodwn fod y busnesau mwy o faint hyn yn tueddu i fod yn ganghennau busnesau sydd â'u pencadlys y tu allan i Gymru; maent felly mewn perygl o benderfyniadau wedi'u gwneud yn allanol, ac nid oes ganddynt y cysylltiad emosiynol â Chymru fel sydd gan fusnesau llai o faint. O'r herwydd, nod Llywodraeth Cymru yw annog nifer fawr o fusnesau brodorol i symud i fyny'r amrediad maint, er y gellid cael mwy o ffocws ar y busnesau brodorol Cymreig canolig eu maint.

3.18 Roedd prinder sgiliau ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg yn her arall y tynnwyd sylw ati yn Tuag at Dwf Cynaliadwy 2014 i 20; roedd hyn yn awgrymu y gallai fod 'rhwystr' ar ffurf barn neu gamargraff ynghylch yr hyn y mae

[19] BIC Innovation, 'Impact of the Food & Drink Sector in Wales – A report into the multiplier effect, impacts, challenges and opportunities facing the Welsh food and drink sector', Mehefin 2023. Heb ei gyhoeddi.

gweithio yn y diwydiant yn ei olygu. Canfu arolwg diweddar gan Sgiliau Bwyd Cymru fod 45% o fusnesau bwyd wedi nodi bylchau mewn sgiliau technegol, tra bod rhanddeiliaid eraill wedi tynnu sylw at ddiffyg graddedigion yn ymuno â'r sector.[20] Nododd Tuag at Dwf Cynaliadwy hefyd fod newid cyson ymhlith staff yn digwydd yn aml oherwydd "nid yw gweithwyr yn gweld llwybrau gyrfa amlwg", ac nad oedd yr hyfforddiant a gynigir yn aml yn bwrpasol nac yn seiliedig ar anghenion y diwydiant. Yn gysylltiedig â hyn, tynnodd Tuag at Dwf Cynaliadwy sylw at dirwedd sy'n ddryslyd i fusnesau, o ystyried y llu o wahanol ddarparwyr hyfforddiant. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y cynnig hyfforddiant yn cynnwys arlwy gan Busnes Cymru Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Masnach), clystyrau bwyd a diod, Lantra a'r canolfannau arloesi bwyd, prifysgolion a cholegau, a chyrff masnach fel y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Ffederasiwn y Cyflogwyr Peirianneg.

3.19 Nod pellach Tuag at Dwf Cynaliadwy oedd datblygu'r marchnadoedd allforio a domestig. O ran y farchnad ddomestig, roedd uchelgais i ddisodli cynnyrch wedi'i fewnforio â chynnyrch domestig drwy ddeialog barhaus am y gadwyn gyflenwi, adeiladu cadwyni cyflenwi mwy integredig, gweithio gyda'r marchnadoedd manwerthu a lletygarwch domestig, a thrwy gynyddu cyflenwad Cymru i'r sector cyhoeddus.

3.20 Mae heriau diweddar yn ymwneud â COVID-19, Brexit, costau cynyddol, ac effeithiau'r rhyfel yn Wcráin, oll wedi dangos pa mor fregus yw cadwyn gyflenwi yn wyneb newidiadau annisgwyl, a manteision cadw cadwyni cyflenwi yn fyr ac yn lleol. Mae'r sector bwyd a diod wedi bod ymhlith y rhai yr effeithiwyd arnynt waethaf gan yr heriau hyn. Er enghraifft, canfu'r Arolwg o Ddirnadaethau ac Amodau Busnes ym mis Ebrill 2022 bod 60% o fusnesau bwyd a diod wedi dweud eu bod wedi cael eu heffeithio gan y cynnydd mewn prisiau ynni, o gymharu â 38% ar draws pob sector.[21] Ymhellach, roedd busnesau bwyd a diod tua ddwywaith yn fwy tebygol o adrodd am gostau cludiant ychwanegol (adroddodd 47% am y rhain, o gymharu â 23% o'r holl ymatebwyr busnes), a nododd mwy na dwy ran o dair ohonynt gynnydd ym mhrisiau deunyddiau a nwyddau neu wasanaethau, o gymharu â dim ond hanner y boblogaeth fusnes gyffredinol. Awgryma amcangyfrifon o'r Arolwg o Ddirnadaethau ac Amodau Busnes hefyd fod busnesau bwyd a diod yn fwy tebygol na diwydiannau eraill o fod wedi mynd i gostau ychwanegol oherwydd diwedd

[20] Trawsnewid Sgiliau yn y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru (Bwyd a Diod Cymru).
[21] Arolwg o Ddirnadaethau ac Amodau Busnes (SYG)

cyfnod pontio'r UE, gyda nwyddau a fewnforiwyd yn cymryd mwy o amser ac yn costio mwy. Dywedodd dros hanner (55%) eu bod yn defnyddio mwy o gyflenwyr yn y DU. Felly, mae'r canfyddiadau hyn yn her ac yn gyfle i'r sector yng Nghymru.

3.21 Cafodd y digwyddiadau ehangach hyn yr effaith o gyflymu tueddiadau cymdeithasol presennol yn gysylltiedig â bwyd a diod i ryw raddau, sef bod defnyddwyr eisiau bwydydd a gynhyrchir yn lleol, a phwyslais ar ddatblygu mwy o dryloywder yn y cadwyni cyflenwi, o'r fferm ei hun a thu hwnt i giât y fferm.[22] Fodd bynnag, ni ddylid goramcangyfrif y tueddiadau hyn, gan fod cost a chyfleustra yn debygol o fod yn brif ysgogwyr i ymddygiad defnyddwyr, gyda ffactorau eraill yn ystyriaethau pell.

3.22 Disgrifiodd y Cynllun Manwerthu a Gwasanaeth Bwyd (2021)[23] yr heriau, y cyfleoedd a'r tueddiadau presennol sydd yn y sector, sef:

- Twf aruthrol ym maes siopa nwyddau groser ar-lein;[24]
- Nid yw cynaliadwyedd bellach yn opsiynol, mae'n orfodol;
- Mae methu ag ennill achrediadau yn arwain at ddiffyg hygrededd i fanwerthwyr;
- Nid yw cwmnïau Cymreig yn buddsoddi digon mewn datblygu cynnyrch newydd, ac mae'n well ganddynt ganolbwyntio ar ddewisiadau a brandiau cynnyrch hanesyddol;
- Mae deall data a'i droi'n wybodaeth y gellir gweithredu arni yn hanfodol i lwyddiant hirdymor cwmnïau;
- Dim ond nifer cyfyngedig o frandiau Cymreig sydd â dosbarthiad cryf y tu allan i Gymru.

3.23 Mae'r weledigaeth strategol newydd ar gyfer y sector yn canolbwyntio ar themâu tebyg i'r strategaeth flaenorol. Mae'n mynegi rôl y sector bwyd a diod wrth greu ffyniant economaidd drwy hybu twf a chynhyrchiant, ynghyd â phwyslais cymdeithasol ac amgylcheddol cryf, drwy annog tegwch mewn gwaith a sicrhau bod busnesau'n cyrraedd y lefelau uchaf o ran cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae hefyd

---

[22] Er enghraifft, canfu adroddiad gan Deloitte, Capitalizing on the shifting consumer food value equation 2016, er bod ysgogwyr traddodiadol blas, pris a chyfleustra yn dal yn bodoli, eto wedi cynyddu'n sylweddol y mae nifer y defnyddwyr sy'n ystyried nifer o ysgogwyr esblygol yn rhan fawr o'r penderfyniad prynu, gan gynnwys ffactorau megis effaith gymdeithasol a thryloywder. Ymhellach, canfu adroddiad a gomisiynwyd ar 'Gwerth Cymreictod' (Bwyd a Diod Cymru) fod hyrwyddo hunaniaeth Gymreig glir ar gynnyrch a wneir yng Nghymru yn aml yn ychwanegu gwerth at frandiau, gydag 80% o ddefnyddwyr yn ffafrio prynu cynnyrch Cymreig.
[23] Bwyd a Diod Cymru, Cynllun Manwerthu a Gwasanaeth Bwyd
[24] Deallwn fod y duedd hon wedi dirywio'n sylweddol yn dilyn y pandemig, ond mae'n parhau i fod yn uwch nag yr oedd yn flaenorol.

yn canolbwyntio ar sefydlu enw da byd-eang am ragoriaeth.[25] Mae'r strategaeth 'Adeiladu ar ein Llwyddiant' yn cynnwys pedair prif amcan:

1. Sicrhau llwyddiant economaidd drwy dyfu maint, gwerth a chynhyrchiant busnesau. Mae hyn yn cynnwys targed i'r sector bwyd dyfu'n gyflymach nag yng ngweddill y DU, ac i o leiaf £8.5bn erbyn 2025. Mae hefyd yn cynnwys targed ar gyfer cynhyrchiant, sef bod cyfartaledd tair blynedd Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yr awr a weithir yn y sector i gynyddu'n gymesur yn fwy na gweddill y DU.
2. Mynd i'r afael â'r heriau o wneud y sector yn fwy cynaliadwy, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol ar y lefelau uchaf.
3. Creu gwaith deniadol a theg i bobl. Yn sail i hyn mae targed bob blwyddyn, sef cynyddu cyfran gweithwyr y sector bwyd a diod sy'n derbyn o leiaf y Cyflog Byw,[26] i 80% erbyn 2025.
4. Hyrwyddo Cymru'n fyd-eang fel Cenedl Fwyd, sef bod busnesau Cymru yn cyflawni'r enw gorau a'r safonau uchaf trwy achrediad, yn ennill gwobrau, ac yn cyrraedd y safonau hylendid bwyd uchaf. Dyma'r targedau ar gyfer y nod hwn:

    - Cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn faint o fusnesau gweithgynhyrchu yn y sector sydd ag achrediad (e.e., rheolaeth amgylcheddol, datblygu staff, cynhyrchu a safonau perthnasol eraill).
    - Cynyddu cyfran y busnesau gweithgynhyrchu yn y sector bwyd a diod sy'n ennill dyfarniadau sy'n briodol i'w busnes, ac erbyn 2025 bydd o leiaf chwe chynnyrch arall o Gymru yn ymuno â chynllun Dynodiad Daearyddol (GI) y DU.
    - Bydd gan 98% o fusnesau sgôr hylendid bwyd o 5 erbyn 2025.

3.24 I gyflawni'r amcanion hyn, nododd y weledigaeth strategol yr angen i gael "cefnogaeth system gyfan", gyda 10 cam gweithredu allweddol fel a ganlyn:

1. Trosglwyddo gwybodaeth drwy Raglen Mewnwelediad, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am farchnadoedd yng Nghymru, y DU a ledled y byd.
2. Rhoi'r offer rheoli ac arwain cywir i berchnogion busnes ar gyfer cynllunio busnes, rheolaeth ariannol a datblygu pobl.

[25] Bwyd a Diod Cymru, Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021 (Busnes Cymru: Bwyd a Diod)
[26] Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol (23+) wedi'i osod yn £10.42 o fis Ebrill 2023.

3. Adeiladu rhwydweithiau a chlystyrau i greu cyfleoedd, rhannu arfer gorau, a helpu i fyrhau cadwyni cyflenwi.
4. Targedu ehangu busnesau, er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer y busnesau bach sy'n datblygu'n fentrau canolig; a busnesau canolig eu maint sy'n dod yn gwmnïau mwy.
5. Darparu'r cymorth technegol mwyaf priodol i helpu busnesau i dyfu, arloesi, cystadlu, a chyrraedd marchnadoedd newydd.
6. Helpu cynnyrch Cymreig i gael lle amlwg ar silffoedd pob manwerthwr yn y DU, ar yr un pryd hefyd â gwneud cynnydd sylweddol yn y sectorau gwasanaeth a chyfanwerthu.
7. Hyrwyddo cynnyrch Cymru ledled y byd, mewn sioeau masnach a digwyddiadau, a chyflawni'r Cynllun Gweithredu Allforio – gan gynnwys helpu busnesau i archwilio marchnadoedd byd-eang newydd; cynnal rhaglen o deithiau masnach rhithwir a chorfforol; darparu cefnogaeth ariannol ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag allforio a phresenoldeb mewn sioeau masnach; a chyngor wedi'i deilwra.
8. Hyrwyddo Brand Cymru, megis drwy ddefnyddio dull 'arwr ac eurgylch'. Y nod yw datblygu teulu o gynhyrchion 'arwr' sy'n cynrychioli'r gorau o Gymru, gan hyrwyddo'r rhain yn egnïol i helpu i yrru gwerthiannau a dominyddu eu marchnadoedd. Bydd yr 'effaith eurgylch' yn dilyn yn naturiol: gall y sector cyfan elwa trwy gysylltiad.
9. Denu buddsoddiad a datblygu llwybr buddsoddi sy'n cefnogi busnesau i ddewis y buddsoddiad cywir, ar yr adeg gywir, a gyda'r partneriaid cywir.
10. Ymgorffori gwerthoedd Llywodraeth Cymru yn y busnesau a gynorthwyir, gyda'r ddwy ochr yn llofnodi Contract Economaidd lle bydd angen i fusnesau ddangos eu bod yn gweithredu'r gwerthoedd hynny (gwaith teg, carbon isel ac ati).

3.25 Cynlluniwyd y cynlluniau a ariannwyd gan yr RDP, fel y byddwn yn dangos yn yr adran nesaf, i gyflawni llawer o'r camau gweithredu uchod, tra bod eraill eisoes yn cael eu cwblhau drwy ymyriadau eraill gan Lywodraeth Cymru. Yn yr ystyr hwnnw, gellir disgrifio'r camau gweithredu a amlinellir yn y weledigaeth strategol fel ymdrech i gynnal y mathau o gymorth yr oedd y sector bwyd a diod wedi'i gael yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn (h.y. o 2014).

3.26 Yn ystod yr ymgynghoriad cwmpasu soniwyd hefyd am y cam gweithredu terfynol sydd ei angen i wireddu'r syniad o 'Gontract Economaidd', sef yn benodol, datblygu

diwylliant ‘rhywbeth am rywbeth’, sef bod cymorth wedi’i roi gan Lywodraeth Cymru yn gyfnewid am gyflawni ymrwymiadau a safonau penodol.

**Cyflwyno’r cynlluniau a ariannwyd gan yr RDP**

3.27 Mae gan Gymru dirwedd gyfoethog o gefnogaeth a chymorth i’w sector bwyd a diod, ac mae ganddi sawl cynllun blaenllaw wedi’u hariannu gan Lywodraeth Cymru o dan RDP 2014 i 2020. Roedd y rhain yn cefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod yn bennaf, er bod cynlluniau eraill hefyd yn cynorthwyo prosesu ac elfennau eraill ar y gadwyn gyflenwi. Roedd y cynlluniau hyn yn ymgorffori ystod o wahanol fodelau, o gynlluniau grant cyfalaf, i gynnal profion ar fasnachu, marchnata, mentora, hyfforddi, arloesi, a rhwydweithio neu ddatblygu grwpiau clwstwr. Canolbwyntient hefyd ar wahanol feysydd gweithredu, o is-sectorau penodol yn y sector bwyd a diod, i feysydd pwnc penodol fel caffael, cymorth datblygu cynnyrch technegol, cynlluniau bocsys bwyd, a chyllid. Cynhaliwyd nifer o’r rhain ar lefel genedlaethol, tra bod eraill yn canolbwyntio ar ranbarthau penodol yng Nghymru.

3.28 Mae cyfanswm o 100 i 150 o gynlluniau a phrosiectau wedi’u hariannu o dan RDP 2014 i 20 yng Nghymru. Fel rhan o’r adolygiad hwn, gwelsom fod 34 o gynlluniau a phrosiectau yn ceisio cefnogi’r sector bwyd a diod (gan gynnwys rhai a oedd yn canolbwyntio ar y sector amaethyddol ehangach). O’r rhain, nodwyd bod 19 yn berthnasol i’r adolygiad hwn, gan eu bod yn cynnig cymorth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod. Roedd y rhan fwyaf o’r rhain yn uniongyrchol berthnasol yn eu ffocws ar y sector bwyd a diod (gellir disgrifio 10 cynllun i fod felly), er bod wyth arall yn cael eu disgrifio’n well fel cynlluniau amaethyddol (gan gynnwys dau yn ymwneud â garddwriaeth). Roedd un arall yn canolbwyntio ar dwristiaeth bwyd ac ni roddai gymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd a diod.

3.29 O’r 10 cynllun a oedd yn uniongyrchol berthnasol a ariannwyd o dan yr RDP, ystyriodd Llywodraeth Cymru fod pedwar ohonynt yn brif ymyriadau bwyd a diod. Mae proffil o bob un o’r cynlluniau blaenllaw hyn isod.

Cywain

3.30 Roedd Cywain yn brosiect gwerth £13m a gynhaliwyd gan Menter a Busnes. Roedd tîm o tua 30 o staff yn gweithredu ledled Cymru, gan roi cymorth datblygu busnes i gynhyrchwyr bwyd a diod. Ariannwyd y cynllun o dan y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (CSCDS), ac roedd yn canolbwyntio’n benodol ar gefnogi busnesau â ‘photensial ar gyfer twf uchel’, gan fod ag offeryn diagnostig ar gyfer

nodi busnesau oedd â'r awydd a'r gallu mwyaf i dyfu. Oherwydd ffocws ar dwf a chreu swyddi, y bwriad oedd sianelu adnoddau tuag at fusnesau oedd eisiau uwchraddio a datblygu. Roedd y cynllun i orffen ym mis Mehefin 2023.

3.31 Roedd maint y cymorth a gynigiwyd yn bellgyrhaeddol, gan ei gynnig yn bennaf drwy dri llinyn:

1. Cywain – Busnesau newydd/Micro – hon yw'r elfen bwysicaf o bosibl, o ran cynorthwyo twf yn uniongyrchol. Cafodd busnesau gefnogaeth ddwys un-i-un gan un o'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol, a'r rheiny yn gyfrifol am nodi eu hanghenion, monitro eu cynnydd, ac, os oedd angen, dod â chymorth arbenigol iddynt drwy fframwaith o ddarparwyr ag arbenigedd amrywiol. Er enghraifft, roedd yr arbenigedd hwn yn aml yn cynnwys cymorth â brandio, marchnata, datblygu gwefan, rheolaeth ariannol, datblygu cynnyrch, a mwy. Câi'r cymorth hwn ei roi drwy 'becyn cymorth cynllun gweithredu' cam wrth gam, a oedd yn cynnwys diagnostig cychwynnol y busnes, amserlenni gwaith, a cherrig milltir, gyda'r prif bwyslais ar ddilyniant a thwf y busnes. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar gynllun gweithredu ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod y cymorth yn cael ei roi yn unol â gofynion busnesau ac o dan eu harweiniad nhw, a hyn yn egwyddor allweddol wrth gynnal y prosiect.
2. Clystyrau Cywain: trefnwyd tri chlwstwr busnes gan Cywain – sef Clwstwr Bwydydd Da, y Clwstwr Mêl a'r Clwstwr Bwyd Môr – a phob un ohonynt yn amrywio o ran maint a datblygiad. Roedd pob clwstwr wedi'i arwain gan Reolwyr Clystyrau penodedig, tra bod Ymgynghorwyr Arbenigol hefyd yn cael eu cyflogi i helpu i arwain y ddarpariaeth ar lefel strategol. Roedd Gweithredwyr Clystyrau hefyd, a'r rheiny yn cynnig capasiti ychwanegol i helpu i gefnogi a recriwtio aelodau clwstwr, yn ogystal â chynnal prosiectau clwstwr. Mynychai aelodau'r clystyrau gyfarfodydd rheolaidd, yn aml gyda siaradwyr gwadd uchel eu proffil yn y diwydiant; gallent hefyd fynychu gweminarau a sesiynau gweithdy, yn aml gyda chymorth dilynol un-i-un, a chaent eu hannog i gydweithio ar brosiectau a chyfleoedd.
3. Cymorth 'craidd' Cywain oedd y llinyn lleiaf dwys. Roedd ar gael i bob busnes heb botensial twf clir neu a allai elwa o fod yn rhan o'r grwpiau clwstwr. Nid oedd gan y busnesau hyn fynediad at elfennau'r prosiect mwy dwys eu hadnoddau, megis y cymorth un-i-un gan reolwyr ac arbenigwyr allanol. Fodd

bynnag, fe'u gwahoddwyd i fynychu gweithdai, gweminarau a digwyddiadau, a derbyn newyddion y prosiect am y diwydiant a gwybodaeth am y farchnad.

3.32 Yn ogystal, gallai busnesau ymgysylltu â chyfleoedd arbrofi â masnachu, cyrchu gwybodaeth am y farchnad, cael cyhoeddusrwydd gan dîm marchnata, a chymryd rhan mewn prosiectau a drefnwyd gan dîm arloesi'r cynllun.

Prosiect Helix

3.33 Sefydlwyd Prosiect Helix yn 2016, wedi'i ariannu o dan Fesur 1 yr RDP (trosglwyddo gwybodaeth a chamau gweithredu'n ymwneud â gwybodaeth), ac roedd yn fenter strategol Cymru gyfan i'w gynnal gan dri phartner o dan y brand Arloesi Bwyd Cymru.[27] Y tri phartner oedd Canolfan Bwyd Cymru yn y Canolbarth (rhan o Gyngor Sir Ceredigion),[28] y Ganolfan Technoleg Bwyd yn y Gogledd (rhan o Grŵp Llandrillo-Menai),[29] a'r Ganolfan Diwydiant Bwyd yn y De (rhan o Brifysgol Metropolitan Caerdydd).[30]

3.34 Gweithgarwch y prosiect oedd trosglwyddo gwybodaeth ymarferol, er mwyn helpu cwmnïau o Gymru i ddatblygu ac ailffurfio cynhyrchion arloesol – o'r cysyniad, dylunio, datblygu a gweithgynhyrchu, hyd at fasged siopa'r defnyddiwr. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y prosiect oedd tua £16m; roedd ei weithgarwch i fod i ddod i ben ym mis Mehefin 2023.

3.35 Disgrifiwyd Prosiect Helix i fod â thri amcan strategol (y cyfeirir atynt hefyd fel 'colofnau'), sef: Arloesi Bwyd, Effeithlonrwydd Bwyd, a Strategaeth Fwyd. Roedd yr amcanion strategol hyn i'w cyflawni trwy weithredu mewn 18 maes.

- Roedd camau gweithredu yn ymwneud ag Arloesi Bwyd yn cynnwys datblygu cynnyrch newydd (gan gynnwys pecynnu a labelu), gwybodaeth dechnegol (i gefnogi cynhyrchu yn ddiogel ac yn gyfreithlon, e.e. rheoli alergenau), cychwyn busnes newydd, deddfwriaeth bwyd (e.e. labelu bwyd, hylendid, diogelwch, ac ati), ac ailffurfio cynnyrch (e.e. adolygu ryseitiau i fynd i'r afael ag ansawdd, maeth, diogelwch, cyfreithlondeb neu faterion effeithlonrwydd).
- Roedd camau gweithredu yn ymwneud ag Effeithlonrwydd Bwyd yn cynnwys datblygu systemau (h.y. datblygu prosesau gweithgynhyrchu i sicrhau

[27] Arloesi Bwyd Cymru
[28] Canolfan Bwyd Cymru
[29] Canolfan Technoleg Bwyd
[30] Canolfan Diwydiant Bwyd (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

cydymffurfio â galluoedd a manylebau cynnyrch a phrosesau), rheolaethau ar brosesau (e.e. proffilio tymheredd ac asesu pwysau cyfartalog), effeithlonrwydd cynnyrch (asesu proses a gallu cynnyrch, megis er mwyn lleihau gwastraff a mabwysiadu egwyddorion darbodus), dyluniad y safle (e.e. cynllun y broses), pecynnu (e.e. manylebau, ffynonellau deunyddiau, cynaliadwyedd, a dadansoddi cylchred oes), a dilysu systemau (e.e. arsylwi ac archwilio ar y safle).

- Roedd camau gweithredu yn ymwneud â'r Strategaeth Fwyd yn cynnwys datblygu fframwaith arloesi o ddarparwyr arbenigol i gynnal gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth penodol; helpu busnesau i gydymffurfio ag achrediadau trydydd parti; ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o drosglwyddo gwybodaeth (e.e. seminarau a chynadleddau); darparu gwybodaeth am y sector (e.e. trwy ymchwil i berfformiad llawr y ffatri, cyfleoedd allforio, ac ati); datblygu busnes bwyd (e.e. trwy gyngor technegol, cymorth â digwyddiadau Cwrdd â Phrynwyr, ac ati); a rhaglenni hyfforddi pwrpasol (e.e. prosesu a chymorth technegol).

3.36 Roedd y canolfannau yn meddu ar ystod o offer arbrofi modern ar raddfa ddiwydiannol i gynnal pob math o waith i ddatblygu cynnyrch newydd hyd at lansio cynnyrch yn llwyddiannus. Byddai hyn yn rhoi modd i'r cleient weithgynhyrchu cynnyrch ar raddfa beilot i sicrhau gwerthiant gan adwerthwyr cyn buddsoddi mewn offer. Amrywiai'r cyfleusterau ledled y tair canolfan, ac yn cynnwys ystafell dadansoddi synhwyraidd, ceginau arbrofi, neuaddau prosesu, labordai dadansoddi bwyd, a llawer mwy. Ynghyd â gweithgarwch datblygu cynnyrch newydd, gellid defnyddio'r cyfleusterau hyn ar gyfer hyfforddiant, cynhyrchu bwyd ar raddfa mwy, arddangos cynnyrch newydd i fanwerthwyr posibl, ac asesu elfennau cyfansoddiad bwyd (e.e. dadansoddi oes silff, dadansoddi maeth, egni, protein, braster, halen, alcohol, lleithder, solidau hydawdd a gweithgaredd dŵr).

3.37 Roedd cymorth prosiect Helix wedi'i rannu'n dair 'thema', sef Thema 1: trosglwyddo gwybodaeth tymor byr (diagnostig); Thema 2: trosglwyddo gwybodaeth tymor canolig; a Thema 3: trosglwyddo gwybodaeth hirdymor. Gallai busnesau, os byddai'n briodol, symud o Thema 1 i Thema 2 ac/neu 3. Bwriadwyd Thema 1 i gyfnewid gwybodaeth ddigwydd yn y fan a'r lle fwy neu lai drwy wasanaethau tymor byr (hyd at werth pum achos o ddau ddiwrnod o gymorth, bob blwyddyn o'r prosiect); roedd y rhain fel arfer yn cynnwys gwybodaeth dechnegol, dadansoddi

prosesau cynhyrchu a chyngor ac arweiniad i fusnesau newydd wrth iddynt sefydlu. Roedd Thema 2 yn brosiect dwysach, rhaid oedd i fusnesau wneud cyfraniad o 20% am y cymorth (câi microfusnesau y cymorth am ddim). Roedd y cymorth yn cynnwys datblygu cynnyrch newydd ac ailffurfio cynnyrch, dylunio safleoedd, dilysu a datblygu systemau, a mwy. Roedd yn rhaid i fusnesau allu dangos rhagolygon twf cryf er mwyn cael mynediad at gymorth drwy Thema 3, a byddai'r Ganolfan yn pennu swyddog cyswllt i weithio gyda'r cwmni ar brosiect hirdymor (gyda'r busnes yn cyfrannu £10,000 y flwyddyn). Roedd prosiectau'n canolbwyntio ar ddatrys materion technegol allweddol a oedd yn wynebu busnesau bwyd a allai arwain at newid sylweddol yn y ffordd yr oedd y busnes yn gweithredu. Mae enghreifftiau o'r math o brosiectau a gynhelid yn cynnwys sicrhau achrediad trydydd parti, sefydlu systemau newydd i ddatblygu bwyd a mwy.

Sgiliau Bwyd Cymru (FSC)

3.38 Wedi'i gynnal gan Lantra a hefyd wedi'i ariannu o dan Fesur 1 (trosglwyddo gwybodaeth a chamau gweithredu'n ymwneud â gwybodaeth), roedd Sgiliau Bwyd Cymru yn brosiect £3m a gynhaliwyd dros gyfnod o dair blynedd hyd at fis Tachwedd 2022; cynigiai hyfforddiant technegol a datblygiad staff i gwmnïau busnes bwyd yng Nghymru. Gwnaed hyn trwy hyfforddiant achrededig a heb ei achredu, ynghyd â datrysiadau pwrpasol a nodwyd trwy elfen archwilio sgiliau. Cynlluniwyd yr hyfforddiant i uwchsgilio gweithlu busnesau bwyd a diod, er mwyn gwella cynhyrchiant, enillion elw net, arloesi ac arfer gorau.

3.39 Ffocws allweddol Sgiliau Bwyd Cymru oedd paratoi'r rheiny sy'n gweithio yn y sector i addasu i heriau'r dyfodol, a'u rhoi mewn gwell sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu a thyfu busnesau yn y dyfodol. Wrth ymgysylltu â Sgiliau Bwyd Cymru byddai busnesau yn defnyddio offeryn diagnostig sgiliau i nodi bylchau mewn sgiliau ac i fod yn sail i gynllun hyfforddi pwrpasol, er mwyn llenwi'r bylchau hynny yn ogystal â gwella'r sylfaen sgiliau presennol. Roedd themâu hyfforddi fel arfer yn canolbwyntio ar reoli busnes, TGCh, hylendid technegol a bwyd, iechyd a diogelwch, a gwerthu a marchnata.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd (RBISF)

3.40 FBIS oedd y lefel uchaf o bell ffordd o ran gwariant ariannol ymhlith yr holl gynlluniau bwyd a diod a ariannwyd gan yr RDP, gydag ychydig o dan £60m o

grantiau cyfalaf wedi'u dyfarnu, ynghyd â thua £800k drwy RBISF (chwaer gynllun a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru oedd â chylch gwaith tebyg). Mae 155 o brosiectau wedi bod ar eu hennill drwy'r cynllun, a phob un ohonynt wedi gorffen erbyn Mehefin 2023 fan bellaf.

3.41 Roedd y ddau gynllun yn rhoi grantiau cyfalaf i fusnesau bwyd a diod Cymru er mwyn iddynt fuddsoddi yn eu gallu i brosesu cynnyrch. Dyluniwyd y cynlluniau i wella perfformiad a chystadleurwydd busnesau prosesu, er mwyn ymateb i alw defnyddwyr, annog arallgyfeirio, ac adnabod marchnadoedd newydd, manteisio arnynt a gwerthu iddynt.

3.42 Prif nod y cynlluniau hyn oedd creu twf yn y sector, yn ogystal â chynyddu cynaliadwyedd a sicrwydd bwyd trwy adeiladu a hyrwyddo asedau cyfalaf. Helpodd y cynlluniau broseswyr yn uniongyrchol i gynyddu eu capasiti, gan arwain at dyfu eu cynhyrchiant a'u hincwm. Roedd FBIS hefyd wedi cefnogi busnesau eraill (cynhyrchwyr cynradd yn arbennig) i arallgyfeirio, trwy ddatblygu elfen brosesu, a hynny wedyn yn ychwanegu gwerth at eu gwaith.

Cynlluniau eraill wedi'u hariannu gan yr RDP

3.43 Barnwyd bod pum cynllun arall wedi'u hariannu gan yr RDP yn uniongyrchol berthnasol i gyflawni diben yr ymarfer ymchwil hwn.

1. Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy (SSU) Bwyd a Diod Cymru. Dan arweiniad BIC Innovation, lansiwyd y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yn 2021 a'i gynnal hyd at fis Mehefin 2023, ar raddfa lai o faint na'r cynlluniau blaenllaw. Wedi'i ariannu o dan y CSCDS, roedd yn cynnig cyfuniad o gymorth rheoli cyfrifon un-i-un, trefnu clystyrau, a gweithgareddau megis digwyddiadau a gweithdai, teithiau astudio, a phrosiectau cydweithio, ynghyd â phrosiectau peilot pwrpasol i fynd i'r afael â materion busnes penodol. Y prif wahaniaeth o gynlluniau clystyru a chymorth busnes eraill fel Cywain yw bod y clwstwr hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyllid, ac wedi mynd i'r afael â materion penodol diffyg sgiliau rheoli ariannol a mynediad at gyllid.
2. DiscoverDelicious.Wales: Roedd hwn yn brosiect peilot dwy flynedd, wedi'i gynnal o 2017 hyd at 2019 a'i ariannu gan y CSCDS. Ei nod oedd profi pa mor ymarferol fyddai llwybr wedi'i hwyluso i'r farchnad ar gyfer cynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd bach ac annibynnol, gan ddefnyddio mecanweithiau gwerthu uniongyrchol; yn bennaf trwy lwyfan e-fasnach newydd.

3. Cydweithredu ar gyfer Twf. Cynhaliwyd y prosiect hwn gan Brifysgol Caerdydd, a hefyd ei ariannu o dan y CSCDS, roedd y prosiect wedi cynorthwyo cydweithredu ymysg sector diodydd Cymru drwy ddull seiliedig ar glystyrau. Cefnogai gynhyrchwyr diodydd i wneud penderfyniadau effeithiol – a thrwy fanteision cydweithredu, i dyfu'n gynaliadwy gyda buddsoddiad cyfalaf bob yn dipyn ar yr un pryd â chyflawni amcanion amgylcheddol.
4. Larder Cymru. Wedi'i arwain gan Menter Môn a'i ariannu drwy'r CSCDS, ceisiai Larder Cymru gynyddu faint o fusnesau bwyd Cymru sy'n caffael cytundebau yn y sector cyhoeddus, yn awdurdodau lleol Ynys Môn a Gwynedd. Gwnâi hynny drwy godi proffil y cyfleoedd oedd ar gael i fusnesau bwyd a diod yr ardal drwy gaffael cyhoeddus, ac uwchsgilio busnesau wrth dendro am gontractau.
5. Neges@Home. Wedi'i arwain gan Menter Môn yn Ynys Môn a Gwynedd, a'i ariannu o dan y CSCDS, roedd Neges@Home am greu bocsys 'bwyd lleol' er mwyn rhoi ymdeimlad o le i ymwelwyr trwy gynnyrch lleol; ac i helpu cynhyrchwyr lleol gael mynediad i farchnadoedd newydd. Y brif farchnad darged oedd twristiaid yn aros mewn llety hunanarlwyo. Dyma'r prif becynnau gwaith:

    - Hwyluso partneriaethau – gweithio gyda chynhyrchwyr a chogyddion lleol i ddatblygu'r cynnig bwyd (gan gynnwys pecynnau ryseitiau a hamperi bwyd lleol).
    - Cefnogaeth arbenigol – i greu'r bocsys (gan gynnwys pecynnu, brandio, datblygu ryseitiau, dosbarthu, diogelwch bwyd a chynnwys ar-lein).
    - Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid – trwy gydweithio â'r sector twristiaeth, alinio negeseuon allweddol a sefydlu partneriaethau â busnesau twristiaeth.
    - Gwerthuso a rhannu arfer gorau – fel bod eraill yn gallu cael mynediad at yr un cyfleoedd.

3.44 Barnwyd bod naw cynllun arall yn rhannol berthnasol, gan mai dim ond yn rhannol yr oeddent yn canolbwyntio ar fwyd a diod (cynlluniau amaethyddol oedd y rhan fwyaf ohonynt).

1. Tyfu Cymru: prosiect wedi'i gynnal gan Lantra a'i ariannu o dan y CSCDS, ei nod oedd tyfu'r sector garddwriaeth yng Nghymru trwy fynediad at hyfforddiant,

gwybodaeth am y farchnad a grwpiau rhwydweithio. Efallai mai dyma'r prosiect mwyaf perthnasol yn y categori hwn, er bod y prosiect hefyd wedi cefnogi garddwriaethwyr addurniadol (h.y. dim bwyd a diod).

2. Rhaglen Datblygu Cig Coch: rhaglen ar raddfa fawr, wedi'i chynnal gan Hybu Cig Cymru a'i hariannu o dan y CSCDS, i gefnogi twf a phroffidioldeb yn y sector cig coch. Roedd llawer o'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar roi cymorth i wella arferion amaethyddol, megis drwy'r prosiect cynllunio iechyd Stoc+ a Chynllun Hyrddod Mynydd, a oedd yn canolbwyntio ar gofnodi perfformiad a geneteg hyrddod mynydd; mae hyn yn dangos bod gan y rhaglen ffocws ehangach na bwyd a diod.
3. Menter Moch Cymru: wedi'i ariannu dan y CSCDS, nod y prosiect oedd cefnogi a datblygu'r sector moch yng Nghymru drwy ddod â phartneriaid cadwyn gyflenwi ynghyd. Y bwriad oedd cynyddu cyfleoedd ehangu, datblygu marchnadoedd newydd, cefnogi newydd-ddyfodiaid, a darparu hyfforddiant, trosglwyddo gwybodaeth a chymorth busnes i gynhyrchwyr presennol.
4. Cynllun Eidion Integredig CFfI: roedd y peilot hwn, wedi'i ariannu o dan y CSCDS, yn asesu potensial sefydlu cadwyn gyflenwi cig eidion Cymreig wedi'i hintegreiddio'n llawn, ac yn cynnwys buchesi godro ac eidion, er mwyn gwneud y gorau o botensial genetig a pherfformiad oes. Ei nod hefyd oedd hwyluso datblygiad proffesiynol Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI) Cymru a'i aelodau drwy fentora, datblygu sgiliau a gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi.
5. Clwstwr Garddwriaeth: wedi'i ariannu o dan y CSCDS, ceisiai'r prosiect ddatblygu clwstwr i ganolbwyntio ar leihau gwastraff a sicrhau cymaint o elw â phosibl drwy wella oes silff a lleihau colledion cynaeafu, sy'n gyfyngiadau mawr ar dwf busnesau.
6. Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth: wedi'i arwain gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, a'i ariannu o dan y CSCDS, nod y prosiect hwn oedd datblygu ac asesu strategaethau ymgysylltu newydd i gynyddu proffidioldeb a gwytnwch y sector llaeth yng Nghymru.
7. Menter Strategol Llaeth: roedd hwn hefyd wedi'i arwain gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a'i ariannu gan y CSCDS, bwriad y prosiect oedd cynyddu proffidioldeb a chydnerthedd sector llaeth Cymru trwy leihau costau cynhyrchu trwy gynyddu effeithlonrwydd gan annog dulliau o liniaru neu addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

8. Datblygu Organig Cymru: dan arweiniad Prifysgol Cymru ac wedi'i ariannu o dan y CSCDS, ceisiai'r prosiect alluogi sector organig Cymru i ymateb yn well i'r galw cynyddol am gynnyrch organig, drwy ddarparu gwybodaeth wedi'i thargedu am y farchnad, nodi rhwystrau i ymgysylltu, a chefnogi gwell cydweithredu yn y sectorau cig coch, llaeth a garddwriaeth organig. Fodd bynnag, tynnwyd y prosiect yn ôl yn ddiweddarach.
9. Cydweithredu a Datblygu Cadwyn Gyflenwi Twristiaeth Bwyd Cymru: wedi'i ariannu o dan y CSCDS, bwriad y prosiect oedd cael cydweithredu a chydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau a chynnyrch amrywiol yn y maes twristiaeth bwyd yng Nghymru (yn cynnwys gwyliau bwyd, digwyddiadau bwyd a siopau ffermydd).

3.45 Roedd prosiectau'r sector bwyd y barnwyd nad oeddent yn berthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn yn cynnwys yn bennaf weithgareddau a oedd yn seiliedig ar ymchwil, megis astudiaethau dichonoldeb i sefydlu marchnadoedd newydd mewn helgig neu gynhyrchion wedi'u cynaeafu'n wyllt, a ariannwyd gan y CSCDS. Nodwn mai cynlluniau peilot ar raddfa fach oedd y rhain i raddau helaeth, ac efallai eu bod yn llai cydnaws ag amcanion ehangach y gwerthusiad hwn.

3.46 O'r 19 cynllun yr ystyrir eu bod o leiaf yn rhannol berthnasol, rydym wedi cael tystiolaeth o bob un o'r pedwar cynllun blaenllaw (yn ogystal â'r RBISF) i'w cynnwys yn ein hadolygiad, yn ogystal â phob un namyn un o'r cynlluniau sy'n uniongyrchol berthnasol (ac eithrio Cydweithredu ar gyfer Twf), a phedwar o'r naw cynllun sy'n rhannol berthnasol (Tyfu Cymru, Rhaglen Datblygu Cig Coch, Cynllun Eidion Integredig CFfI, a Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth). Rhoddir manylion pellach yn Atodiad 1 ar bob prosiect a chynllun, pa mor berthnasol ydynt, a'r rhesymau dros eu cynnwys neu eu heithrio o'r ymchwil hwn. Yn unol â hynny, mae'r adolygiad o effeithiau a pherfformiad / gwersi a ddysgwyd, a gyflwynir yn y penodau canlynol, wedi'i ategu gan sylfaen dystiolaeth gref sy'n ymgorffori'r prif feysydd gweithgarwch a'r rhai mwyaf perthnasol.

### Cynlluniau cymorth bwyd a diod

3.47 Heblaw am y sefydliadau a'r prosiectau pwrpasol a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar wella sector bwyd a diod Cymru, sefydlodd ambell awdurdod lleol yng Nghymru eu gwasanaethau cymorth eu hunain ar gyfer busnesau bwyd. Er enghraifft,

sefydlodd Casnewydd, Abertawe a Phowys adnoddau ar-lein pwrpasol i roi cyngor i fusnesau bwyd a diod.

3.48 Yn ogystal, mae sawl enghraifft o ymyriadau gan sefydliadau anarbenigol i gefnogi'r sector. Un enghraifft ddiweddar yw rhaglen Cyflymydd Natwest a lansiwyd yn ystod cynhadledd Blas Cymru yn 2021. Cynlluniwyd y rhaglen i gefnogi cyfranogwyr i fynd â'u busnes i'r lefel nesaf, ynghyd â chymuned gefnogol o berchnogion busnes sy'n cydweithio â'i gilydd ac yn rhoi cymorth i'w cydfusnesau. Ar yr wyneb, mae hyn yn fodel gweithredu a ffocws sy'n debyg i Cywain a'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwyedd.

3.49 Ymhellach, mae hefyd yn bwysig nodi bod darpariaethau nad ydynt yn benodol i sector hefyd ar gael i gefnogi cynllunio busnes, megis darpariaeth graidd Busnes Cymru Llywodraeth Cymru. Er nad yw'r gwasanaeth ei hun ar gyfer unrhyw sector penodol, mae gwasanaeth ei Raglen Datblygu Masnach yn targedu'r sector bwyd a diod. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys gweminarau, digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' a rhaglen sgiliau masnachol sy'n cynnwys gweithdai a chymorth un-i-un i roi cyngor a chymorth a all helpu busnesau i gyflawni cynlluniau masnachol ar draws yr holl swyddogaethau busnes. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r sector drwy deithiau masnach dramor, digwyddiadau a gwyliau bwyd, a thrwy'r saith clwstwr bwyd a diod y mae'n eu noddi. Mae rhai o'r rhain yn cael eu hariannu dan gynlluniau'r RDP megis y Clwstwr Bwydydd Da, y Clwstwr Mêl a'r Clwstwr Bwyd Môr (pob un o'r rhain wedi'u cynnal drwy Cywain), ochr yn ochr â Chlwstwr Garddwriaeth Cymru a Chlwstwr Bwyd a Diod Cymru. Y tu allan i hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi Clwstwr Nutri-Cymru: Bwyd a Diod Cymru a Chlwstwr Prif Weithredwyr Bwyd a Diod Cymru. Yn ogystal, mae clystyrau traws-sector eraill fel y Clwstwr Allforio hefyd ar gael i fusnesau bwyd a diod.

# 4. Adolygiad lefel uchel ar effeithiau, aliniad, a gwersi a ddysgwyd


4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau o'n hymchwil, ac yn mynd i'r afael â thri nod allweddol yr astudiaeth: sef, asesu'r effeithiau economaidd ac amgylcheddol, aliniad y gwahanol gynigion a sut maent yn cydweddu ag amcanion polisi, a gwersi a ddysgwyd ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Mae'r bennod yn seiliedig ar ganfyddiadau ein meta-adolygiad o werthusiadau blaenorol, ynghyd â chyfweliadau a gynhaliwyd ag arweinwyr prosiectau a rhanddeiliaid eraill. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a yw gwahanol gynlluniau'r RDP yn ategu ei gilydd, a sut yr oeddent yn gweithio fel pecyn.

### Ehangder a chyfatebolrwydd y pecyn cymorth

4.2 Mae digonedd o gymorth wedi bod ar gael i'r sector bwyd a diod yng Nghymru, ac mae cyfran fawr ohono wedi'i ariannu drwy'r RDP. Yn wir, roedd consensws ymhlith yr holl grwpiau rhanddeiliaid (arweinwyr prosiectau, swyddogion Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allanol megis cyrff masnach) bod "y sector yn cael ei gefnogi'n dda iawn ac yn rhagweithiol"; ar ben hynny, tynnodd llawer sylw at sut roedd y cynnig yn cymharu'n ffafriol â'r rhai yng ngwledydd eraill y DU. Cyfeiriwyd sawl gwaith at "genfigen dros y ffin", oherwydd ehangder y cymorth y gallai busnesau bwyd a diod Cymru gael mynediad ato o gymharu â rhannau eraill o'r DU.

4.3 O ran ehangder a math y cymorth a ddarparwyd, aethom ati i roi cod i bob prosiect a chynllun a oedd wedi'u cynnwys yn ein meta-adolygiad, fel y dangosir yn Ffigur 4.1 a ganlyn.

**Ffigur 4.1: Dadansoddiad o'r gweithgareddau a wnaed gan brosiectau a chynlluniau bwyd a diod a ariannwyd gan yr RDP**




Ffynhonnell: adolygiad Wavehill o'r deunydd gwerthuso

4.4 Isod ceir manylion pellach am y modelau gweithredu a ddefnyddiwyd gan y prosiectau a'r cynlluniau.

- Roedd 10 o'r 14 cynllun yn cynnwys elfen o hyfforddiant a datblygu sgiliau (gan gynnwys pump o'r naw cynllun uniongyrchol berthnasol sy'n rhan o'n hadolygiad). Cynhaliwyd y brif ddarpariaeth drwy Sgiliau Bwyd Cymru, fel y disgrifiwyd yn y bennod flaenorol. Fodd bynnag, roedd sawl un arall yn cynnig cefnogaeth uwchsgilio hefyd, gan gynnwys Cywain a'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy (trwy fentora un-i-un, gweithdai, gweminarau, ac ati) a Helix (trwy ddarparu cyngor ac arweiniad yn ogystal â mentora). Ymhlith y cynlluniau eraill, pwyslais Tyfu Cymru yn benodol oedd hyfforddiant, sef y brif elfen a gynigai (roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau hyfforddi pwrpasol un-i-un ac un-i-lawer).

- Roedd wyth o’r cynlluniau yn cynnwys elfen rwydweithio neu glystyru (gan gynnwys pedwar o’r cynlluniau uniongyrchol berthnasol). Yn Cywain a’r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy, er enghraifft, clystyru oedd un o brif bwyslais y gefnogaeth. Yn ogystal, rhoddai Tyfu Cymru bwyslais sylweddol ar ffurfio rhwydweithiau o dyfwyr, tra bod Larder Cymru yn ceisio sefydlu rhwydwaith o brynwyr sector cyhoeddus.
- Cynigiai saith o’r cynlluniau cymorth un-i-un i fusnesau fel un o’u prif ddulliau gweithredu (gan gynnwys pump o’r cynlluniau uniongyrchol berthnasol). Roedd Cywain, y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy a Tyfu Cymru wedi cyfuno hyn â’r elfen rhwydweithio / clystyrau, tra bod Helix (a Sgiliau Bwyd Cymru i raddau llai) wedi pwysleisio hyn yn sylweddol wrth adolygu anghenion busnes a chynnig cefnogaeth bwrpasol.
- Rhoddodd chwech o’r cynlluniau gymorth ar gyfer datblygu’r gadwyn gyflenwi, neu ar gyfer datblygu llwyfan gwerthu newydd y gallai busnesau elwa ohono (gan gynnwys pedwar o’r cynlluniau sy’n uniongyrchol berthnasol). Roedd y rhain yn cynnwys y llwyfan e-fasnach a ddatblygwyd gan DiscoverDelicious, y rhwydwaith i hyrwyddo cyfleoedd caffael cyhoeddus a ddatblygwyd gan Larder Cymru, a’r cynllun bocs bwyd gan Neges. Yn ogystal, cynigiai Cywain hefyd gyfleoedd roi prawf ar fasnachu, caffael cyhoeddus, a phrosiectau bocsys bwyd, ynghyd â gweithgareddau eraill.
- Canolbwyntiai chwech o’r cynlluniau, yn rhannol o leiaf, ar weithgarwch ymchwil a datblygu (gan gynnwys tri o’r cynlluniau uniongyrchol berthnasol). Yr amlycaf oedd Prosiect Helix, er bod Cywain hefyd yn cyflogi tîm arloesi i gynnal prosiectau peilot, a nifer o gynlluniau eraill yn canolbwyntio ar weithgareddau peilot.
- Roedd pedwar o’r cynlluniau yn cynnig dealltwriaeth a mewnwelediad am y sector i fusnesau (gan gynnwys tri o’r cynlluniau sy’n uniongyrchol berthnasol) – er enghraifft, trwy e-fwletinau, adroddiadau pwrpasol neu storfa wybodaeth, gan helpu i lywio penderfyniadau megis pa farchnadoedd i dreiddio iddynt, neu wella arferion busnes.
- Rhoddai pedwar o’r cynlluniau uniongyrchol berthnasol gefnogaeth â marchnata, gyda phwyslais sylweddol ar hyn yn Cywain, DiscoverDelicious, Larder Cymru, a Neges.

- Roedd tri chynllun uniongyrchol berthnasol yn cynnig mewnwelediadau pwysig ‘o lawr gwlad’, i helpu i lywio datblygiad polisi a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru. Rhoddodd Cywain fewnwelediadau allweddol yn ystod y pandemig, fel y gwnaeth Tyfu Cymru, a oedd hefyd â rôl lobïo wrth gynrychioli buddiannau’r sector garddwriaeth. Rhoddodd Sgiliau Bwyd Cymru hefyd fewnwelediadau pwysig ar fylchau sgiliau.
- Yn olaf, rhoddodd dau gynllun (FBIS a RBISF) fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, i gynyddu gallu’r sector i brosesu yng Nghymru.

4.5 Ynghyd â’r adolygiad hwn o’r modelau cyflenwi sydd yn y pecyn cymorth, aethom ati hefyd i adolygu themâu ffocws y cymorth. O ganlyniad, canfuom fod:

- Saith cynllun wedi canolbwyntio ar drosglwyddo gwybodaeth
- Pump wedi canolbwyntio ar weithgarwch cynyddu/ehangu
- Pedwar cynllun wedi canolbwyntio ar gefnogi gwerthiannau
- Tri chynllun wedi canolbwyntio ar wella gallu ariannol
- Tri chynllun wedi canolbwyntio ar arloesi
- Dau gynllun wedi canolbwyntio ar gefnogi brandio a marchnata
- Dau gynllun wedi canolbwyntio ar gaffael cyhoeddus.

4.6 Cafwyd cryn drafod gyda rhanddeiliaid ynghylch effeithiolrwydd y cynlluniau hyn fel pecyn cymorth, gan gynnwys sut roedd eu cynigion yn cyd-fynd â’i gilydd, meysydd dyblygu, bylchau, ac integreiddio neu gydweithio rhwng y gwahanol gynlluniau.

### Cyfatebolrwydd y cymorth a gynigid

4.7 Roedd y cymorth a gynigiwyd yn eang iawn ac yn cwmpasu’r rhan fwyaf o’r meysydd ymyrraeth a amlinellwyd yn Tuag at Dwf Cynaliadwy a’r Weledigaeth Strategol gyfredol. Canfu ein hadolygiad fod gwahanol gynigion y cynlluniau wedi’u halinio’n dda ar y cyfan ac wedi cynnig cyfatebolrwydd da fel pecyn, wrth i bob cynllun gynnig elfen wahanol i gyflawni’r amcan polisi allweddol i gynhyrchu twf cynaliadwy a chynhwysol i fusnesau. Er enghraifft, mae’r senario a ganlyn yn disgrifio llwybr damcaniaethol ar gyfer busnes sy’n llywio drwy’r dirwedd cymorth a ariannwyd gan yr RDP:

> Mae Busnes A yn cysylltu â Cywain ac yn mynd drwy’r broses ddiagnostig i gael adolygiad manwl o’i anghenion. Mae wedyn yn cael cymorth un-i-un gan Reolwr Datblygu Rhanbarthol, sy’n nodi angen i uwchraddio ei gapasiti cynhyrchu i

fodloni'r galw ac i gynhyrchu twf. Cyfeirir y busnes at y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy, sy'n helpu i ddarparu asesiad o'r gofynion capasiti a'r cyfleoedd i dyfu. Yna caiff y cwmni gymorth i gael mynediad at gyllid FBIS, i brynu'r offer a'r cyfleusterau cynhyrchu perthnasol. Yna mae Prosiect Helix yn rhoi cymorth i fynd i'r afael â'r gofynion ar gyfer y cyfleusterau newydd hynny, ac mae Sgiliau Bwyd Cymru yn hyfforddi gweithwyr y cwmni i weithredu'r prosesau newydd. (Disgrifiad damcaniaethol o lwybr busnes drwy'r seilwaith cymorth.)

4.8 Soniwyd am sawl enghraifft ddamcaniaethol o'r fath gan randdeiliaid yn ystod ein trafodaethau. Gwelwyd y llwybr hwn ar waith hefyd, wrth i un busnes yn aml gael cymorth gan sawl cynllun i helpu â gwahanol elfennau ei uchelgeisiau i dyfu. Roedd hyn yn amlwg yn y data ar gyfer y gwahanol werthusiadau. Er enghraifft, dywedodd 72% o gleientiaid a holwyd fel rhan o werthusiad Cywain eu bod wedi cael eu hatgyfeirio i'r canolfannau arloesi, tra bod 35% wedi'u hatgyfeirio at Sgiliau Bwyd Cymru. Ymhellach, datgelodd gwerthusiad FBIS a RBISF fod 33% o fuddiolwyr hefyd wedi cael cymorth gan Helix, a 31% gan Cywain; er bod y rhan fwyaf o aelodau'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi cael eu cefnogi gan gynlluniau eraill (57% gan Cywain, 24% gan Helix, a 18% gan Sgiliau Bwyd Cymru).

4.9 Roedd cymorth cyfalaf FBIS a RBISF yn effeithiol wedi ategu'r cymorth datblygu busnes a hyfforddiant a ddarparwyd drwy'r cynlluniau eraill. Disgrifiodd arweinwyr y cynlluniau eraill hyn sut yr oedd eu tîm yn trin y cymorth cyfalaf hwn fel rhan o'u cynnig i gleientiaid. Ategwyd y darpariaethau hyn hefyd gan weithgarwch y clystyru, a oedd am sicrhau y gallai busnesau yn y sector gefnogi ei gilydd mewn ffordd fwy cynaliadwy. Tynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith bod y pedwar prif gynllun blaenllaw yn darparu cyfatebolrwydd arbennig o gryf.

4.10 Er bod y cynlluniau ar y cyfan yn cynnig lefel dda o gyfatebiaeth a bod ganddynt linellau darparu clir, roedd rhywfaint o groesi lle'r oedd y llinellau hynny'n mynd yn niwlog. Er enghraifft, roedd gan Cywain a'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy ill dau fodel gweithredu tebyg iawn, gyda phwyslais ar glystyru a rheoli cyfrifon allweddol; yn ogystal, roedd llawer o'u gweithgareddau (teithiau astudio, grwpiau diddordeb arbennig, ac ati) yr un fath. Roedd yr ail yn canolbwyntio mwy ar gyllid, ac roedd gan y cyntaf gylch gwaith ehangach, ond roedd y ffiniau weithiau'n niwlog; ar ben hynny, yn aml yr un busnesau oedd yn cael y cymorth. Roedd gan Tyfu Cymru hefyd fodel gweithredu tebyg iawn mewn sawl ffordd (rheoli cyfrifon allweddol a

rhwydweithiau), ond canolbwyntiai'n gyfan gwbl ar arddwriaeth. Yn yr un modd, roedd cefnogaeth Cywain yn cynnwys cynnal prosiectau pwrpasol i fynd i'r afael â chyfleoedd a nodwyd gan gynhyrchwyr – un ohonynt oedd cefnogi grŵp o fusnesau oedd â diddordeb cael mynediad at gyfleoedd caffael cyhoeddus, a hyn yn debyg i nod cyffredinol prosiect Larder Cymru.

4.11 Er bod y cynlluniau a ariannwyd gan yr RDP yn ategu ei gilydd ar y cyfan, roedd mwy o orgyffwrdd â darpariaethau eraill sydd ar gael i'r sector yng Nghymru, a'u dyblygu o bosibl, sef darpariaethau a ariannwyd o'r tu hwnt i'r RDP. Er enghraifft, Busnes Cymru sy'n darparu'r cymorth craidd i bob busnes yng Nghymru (gan gynnwys y sector bwyd a diod), gyda rhywfaint o orgyffwrdd â'r cymorth datblygu busnes a ddarperir gan Cywain, y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy a Tyfu Cymru (er nad oedd yn cynnig yr un arbenigedd). Yn ôl un o'r rhanddeiliaid:

> "Mae'r prosiectau'n ffitio â'i gilydd i raddau; fodd bynnag rydym yn cwestiynu pam ein bod yn cynnig [y cymorth datblygu busnes] pan fo Busnes Cymru yn ei wneud... nid yw'n gwneud synnwyr yn iawn, ond rôl Llywodraeth Cymru yw alinio [y darpariaethau]." (Cyfweliad â rhanddeiliaid)

4.12 Roedd dyblygu cyllid hefyd rhwng rhai o'r darpariaethau hyfforddi a rhaglen cyfrifon dysgu personol Llywodraeth Cymru,[31] tra bod cynlluniau fel rhaglen Cyflymydd NatWest yn debyg iawn i'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy a Cywain. Yn ogystal, ynghyd â dyblygu darpariaethau, roedd hefyd yn debygol bod dyblygu ar rai o'r egwyddorion sylfaenol. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau – gan gynnwys Cywain, Helix, Sgiliau Bwyd Cymru, Tyfu Cymru, a'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy – wedi defnyddio eu hoffer diagnostig a'u dulliau cofrestru eu hunain, a oedd yn aml yn cofnodi'r un math o wybodaeth.

### Cydweithredu ac integreiddio'r cymorth

4.13 Roedd llawer o enghreifftiau o gydweithio da rhwng y cynlluniau; yn bennaf ar ffurf croesgyfeirio ac atgyfeirio. Yn ôl trafodaethau â rhanddeiliaid, byddai'r angen am gymorth gan gynlluniau eraill yn aml yn dod i'r golwg yn ystod yr ymgysylltu cychwynnol wrth adolygu anghenion cymorth busnesau. Gweithiai staff Cywain gyda'u cleientiaid o ddydd i ddydd i gynorthwyo â'u cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion, gan adolygu anghenion parhaus yn gyson. Defnyddient fecanweithiau

[31] Cyfrifon Dysgu Personol (Gyrfa Cymru)

croesgyfeirio cryf gyda'r cynlluniau blaenllaw eraill pan godai'r anghenion hynny. Yn yr un modd, cynhaliodd prosiect Sgiliau Bwyd Cymru ddadansoddiad trylwyr o anghenion gyda'i gleientiaid. Er bod y ffocws ar yr elfen sgiliau, gallai staff Sgiliau Bwyd Cymru ddysgu bod busnes wedi bod yn datblygu cynnyrch newydd, ac y gallent elwa o gymorth dadansoddi oes silff gan Helix. Yn ogystal, cwestiwn craidd yn y broses honno oedd gofyn am unrhyw gynlluniau ar gyfer gweithredu awtomeiddio newydd dros y pum mlynedd nesaf; cadarnhaodd Sgiliau Bwyd Cymru y byddai unrhyw fusnes sy'n ymateb yn gadarnhaol yn cael ei gyfeirio at FBIS. Yn yr un modd, FBIS oedd y prif bwynt cyfeirio ar gyfer aelodau'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yn ystod trafodaethau ar fuddsoddiad cyfalaf.

4.14 Serch hynny, ysbeidiol a gwasgaredig oedd y gweithgarwch croesgyfeirio hwn; dibynnai'n aml ar aelodau unigol o staff yn meddu ar yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth i wneud yr atgyfeiriadau, tra hefyd yn dibynnu ar fusnesau yn tynnu sylw at eu hanghenion. Dywedodd rhanddeiliaid nad oedd croesgyfeirio yn gyffredinol wedi'u hymgorffori yn arferion gweithredu'r cynlluniau; gallai hyn fod wedi arwain at golli cyfleoedd o ran darparu'r pecyn cymorth llawn sydd ar gael i fusnesau, er mwyn sicrhau'r effeithiau mwyaf posibl. Yn ôl un rhanddeiliad: "mae'n dibynnu ar unigolion i sicrhau bod y berthynas yn cael ei sefydlu. Mae rheoli'r berthynas ar ein hysgwyddau ni fel sefydliadau yn hytrach na bod yn rheolau cadarn sy'n rhan o'r broses â chleient ... dylai fod mwy o eglurder." Awgrymodd rhanddeiliaid eraill ymhellach y byddai wedi bod yn fuddiol cael prosesau mwy penodol ar waith, a llwybrau ar gyfer croesgyfeirio. Er enghraifft, cynigiwyd cyfeiriad at Sgiliau Bwyd Cymru yng ngwaith papur FBIS, gan fod synergedd naturiol rhwng y ddau: yn aml byddai angen i dderbynwyr eitemau cyfalaf newydd uwchsgilio eu staff i'w defnyddio.

4.15 Ynghyd â chroesgyfeiriadau, cafwyd rhai enghreifftiau o gydweithio mwy dwys. Roedd grŵp Clwstwr 201, a hwyluswyd gan Lywodraeth Cymru ac a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r prif gyrff cyflenwi, yn llwyfan defnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth. Yn ogystal, cynhaliodd Cywain, Helix, a Busnes Cymru ddigwyddiadau ar y cyd ar gyfer busnesau newydd fel rhan o fenter gydweithredol. Gweithiodd Tyfu Cymru yn agos â BIC, Helix, a'r Rhaglen Datblygu Masnach, i gefnogi ei gyfrifon allweddol a rheoli'r cymorth ar y cyd. Bu Tyfu Cymru yn gweithio gyda Helix ar gynnal profion ar oes silff, gyda Cywain ar ddatblygu cynlluniau bocsys, a chomisiynwyd BIC ar wahân i gynnal gweithdai sy'n canolbwyntio ar gyllid; mewn

achosion eraill, bu'n gweithio gyda Sgiliau Bwyd Cymru i ddatblygu cynlluniau hyfforddi ar gyfer busnesau.

4.16 Fodd bynnag, a hwythau eu hunain yn cyfaddef hynny, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid "dydyn ni ddim yn wych am gydweithio", a bod rhai o'r cynlluniau'n gweithredu "mewn seilos". Soniodd un rhanddeiliad ei fod wedi gofyn am fynediad i'r System Cyfrifon Busnes a reolir gan Busnes Cymru, er mwyn deall pa gynlluniau yr oedd eu cleientiaid eisoes wedi ymgysylltu â hwy, ac i fedru cynnig cymorth mwy holistig, ynghyd â dileu rhywfaint o'r dyblygu yn y wybodaeth a gasglwyd. Fodd bynnag, ni chafwyd y mynediad hwn.

4.17 I grynhoi, er bod enghreifftiau da o gydweithio, roedd yn seiliedig i raddau helaeth ar ewyllys da a menter yr arweinwyr wrth drefnu gweithgareddau ar y cyd. Ymddengys bod y cydweithio yn ysbeidiol, heb ei gynnal drwy ddull systematig.

4.18 O'r herwydd, roedd cefnogaeth eang i lunio cynnig mwy integredig wrth ddarparu cymorth yn y dyfodol. Disgrifiodd rhanddeiliaid y pecyn diweddar fel "cloddfa ddryslyd" i fusnesau lywio drwyddo a cheisio deall at bwy y dylent droi atynt i gael cymorth; ar ben hynny, gallai hefyd fod yn gymhleth i swyddogion a chyfryngwyr Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y ffordd yr ariannwyd y cynlluniau drwy'r RDP. Yn hanesyddol, roeddent wedi cael eu rheoli'n wahanol, ac Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru oedd yn derbyn y cyllid, ac wedyn yn cynnal y cynlluniau drwy gyfryngwyr. Gwelwyd newid yng nghylch diweddaraf cyllid yr RDP, gyda chyfryngwyr yn cael eu hariannu'n uniongyrchol; arweiniodd hyn at Lywodraeth Cymru yn gorfod ildio rheolaeth, ac felly diffyg rheolaeth ganolog. Deallwn gan swyddogion y Llywodraeth y bydd iteriadau'r cynlluniau hyn yn y dyfodol yn dychwelyd i ffurf debycach i'r trefniant blaenorol. Mae sawl cyfryngwr wedi cael cyllid i gynnal prosiectau a chynlluniau dilynol ar gyfer Helix, Cywain, y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy, FBIS a Sgiliau Bwyd Cymru. Fel rhan o hyn, deallwn y bydd elfen o reolaeth ganolog, a disgwylir i bob contractwr ddefnyddio'r un prosesau craidd a mecanweithiau cipio data, a thrwy hynny ganiatáu i dîm Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru gadw data a gesglir yn ganolog. Bydd hyn yn rhoi modd i Lywodraeth Cymru wneud rhywfaint o frysbennu, sef bod swyddogion yn goruchwylio anghenion pob busnes, ac yn gallu ei gyfeirio at bob ymyriad y bernir ei fod yn briodol. Disgrifiwyd cyflawni hyn gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru fel rhywbeth "hollol hanfodol i… Lywodraeth Cymru symud y strategaeth yn ei blaen".

Bydd hyn yn caniatáu cefnogaeth fwy integredig ar gyfer cyflawni, ac fe'i ffafriwyd yn eang yn ystod yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid. O'i frandio'n gywir a thrwy gael pwynt mynediad wedi'i ddiffinio'n glir, gallai hyn hefyd symleiddio'r broses ymgysylltu ar gyfer busnesau, a chaniatáu taith fwy di-dor a safonol drwy wahanol elfennau'r cymorth.

Bylchau yn y cymorth a gynigid

4.19 Mae'r pecyn cymorth wedi cyflawni'r mwyafrif helaeth o'r amcanion a amlinellir yn Tuag at Dwf Cynaliadwy a'r Weledigaeth Strategol ddiweddaraf; naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Serch hynny, efallai y gellid cael mwy o bwyslais penodol ar themâu fel gwaith teg, enw da a safonau, a hyrwyddo'r sector bwyd a diod yn ehangach. Rydym yn nodi, o ran yr elfen olaf, fod Llywodraeth Cymru hefyd i fuddsoddi mewn marchnata'r sector bwyd a diod mewn ffyrdd eraill (e.e. drwy sioeau masnach, ymgyrchoedd a digwyddiadau), ac efallai nad cynlluniau cymorth yw'r ffordd orau o gyflawni'r nod penodol hwnnw.

4.20 Teimlai rhanddeiliaid yn gyffredinol fod y pecyn yn ddigon cynhwysfawr i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion; fodd bynnag, mae dwy thema yn sefyll allan. Yn gyntaf, awgrymodd dau randdeiliad y gellid wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyfleoedd ar gyfer caffael cyhoeddus. Bu rhywfaint o weithgarwch yn y maes hwn, yn bennaf drwy Larder (er ei fod yn gyfyngedig i'r gogledd-orllewin), ac mewn prosiectau bach a gynhaliwyd gan Cywain. Serch hynny, teimlai rhanddeiliaid y byddai rhaglen fwy uchelgeisiol, genedlaethol wedi helpu i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, er mwyn i ddarparwyr lleol fanteisio ar ragor o gyfleoedd caffael cyhoeddus: "mae llawer o waith i'w wneud ar hynny… gyda'r holl gyfyngiadau i ddidoli drwyddynt."

4.21 Yn ail, ymddengys mai her sylweddol yw'r argraff negyddol am gyfleoedd cyflogaeth yn y sector. Nid oes digon o raddedigion yn ymuno â'r sector (yn enwedig ym maes cyllid), sy'n awgrymu bod angen mwy o weithgarwch yn y maes hwn. Er enghraifft, canfu gwerthusiad Sgiliau Bwyd Cymru y cydnabuwyd yr "angen i newid yr argraff am y sector fel 'gwaith sy'n talu'n wael sy'n golygu bod ar eich traed drwy'r dydd". Cafwyd rhywfaint o weithgarwch ar raddfa fach, gan gynnwys rhaglen lwyddiannus i raddedigion a gafodd ei threialu gan y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy; ar ben hynny, cynigiai Sgiliau Bwyd Cymru hyfforddiant cyllid sylfaenol, ac roedd gan Helix wasanaeth a oedd yn gosod graddedigion technegol mewn busnesau i gefnogi eu gweithrediadau – fodd bynnag, deallwn mai dim ond nifer fach o fusnesau (wyth

ohonynt yn unig drwy ddwy o'r tair canolfan a werthuswyd hyd yma) sydd wedi elwa o'r gweithgaredd hwnnw. Yn ogystal, er gwaethaf y ddarpariaeth hon, awgrymodd trafodaethau gyda staff Helix ymhellach fod angen rhoi sylw i nifer y 'graddedigion technoleg bwyd' sy'n dod drwy'r system yng Nghymru. Yn syml, roedd pryder na fydd Cymru, yn y tymor hwy, yn gallu cyflenwi'r staff sydd eu hangen i gynnal prosiect fel Helix.

**Adolygu perfformiad y ddarpariaeth**

4.22 Roedd ein meta-adolygiad yn ystyried y perfformiad yn cyflawni'r cynlluniau a ariannwyd gan yr RDP, a gwnaed hynny drwy adolygu'r deunydd gwerthuso yn ymwneud â chyflawni yn erbyn amcanion. O'r 12 adroddiad gwerthuso, mae ein hadolygiad yn awgrymu bod saith cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gyflawni eu hamcanion; roedd pedwar arall yn gwneud cynnydd da gyda gweithgarwch yn mynd rhagddo, a dim ond un oedd yn llai effeithiol o ran cyflawni'r nodau a nodwyd.

4.23 Y 'cryfder' a nodwyd amlaf yn y ddarpariaeth oedd arbenigedd y tîm cyflenwi ac effeithiolrwydd y cynnig (sy'n codi mewn 7 o 12 adroddiad); mae hyn yn dangos pwysigrwydd y cyrff cyfryngol sy'n cynnig y cymorth. Yn fwy penodol, soniodd pum adroddiad gwerthuso am hyblygrwydd ac addasrwydd y cymorth a gynigid fel cryfder, a chyfeiriodd tri at allu'r cynlluniau i ddefnyddio arbenigedd allanol, a'r cymorth technegol ac 'ymarferol' a roddwyd. Tîm bach oedd wedi cynnal rhai o'r prosiectau, megis Tyfu Cymru a Sgiliau Bwyd Cymru, a hynny wedi rhoi modd iddynt fod yn fwy hyblyg yn eu dull gweithio; yn ogystal, roeddent yn gallu defnyddio arbenigwyr allanol i gael cymorth effeithiol. Roedd busnesau'n gwerthfawrogi natur bwrpasol y cymorth a roddwyd iddynt. Serch hynny, roedd Cywain, prosiect llawer mwy o faint, hefyd wedi gallu ymgorffori egwyddorion a nodweddion tebyg, gyda busnesau hefyd yn gwerthfawrogi eu gallu i addasu. Cryfderau eraill a deimlwyd oedd y berthynas ddibynadwy a ddatblygwyd gyda buddiolwyr, a maint y cymorth a gynigid (wedi'i nodi mewn pedwar adroddiad). Roedd Cywain unwaith eto yn enghraifft dda o hyn, gyda busnesau yn gallu cael mynediad at gyfoeth o gyfleoedd gwahanol.

4.24 Ar y cyfan, canfu'r adroddiadau gwerthuso bod y bodlonrwydd â'r cymorth a gynigid yn uchel. Er enghraifft, canfu'r adroddiadau gwerthuso ar gyfer Cywain, FBIS, a'r

Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy fod o leiaf 70% o'r buddiolwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r cymorth.

4.25 Serch hynny, cafwyd hefyd broblemau neu heriau wrth gynnal y cynlluniau. Rydym eisoes wedi trafod yn helaeth y materion yn ymwneud ag integreiddio'r cymorth ehangach a gynigid. O edrych ar y darpariaethau unigol, mae'r adroddiadau gwerthuso'n datgelu bod ffactorau allanol wedi effeithio'n andwyol ar 7 o'r 12 (e.e. yr hinsawdd economaidd a COVID-19). Cafodd hyn yr effaith o atal llawer o'r cynnal a darparu mewn person, ac effeithio ar gynlluniau twf busnesau; a hynny yn ei dro wedi amharu ar allu'r cynlluniau i ddangos eu heffaith ar dwf busnes. Yn ogystal, arweiniodd at gostau cynyddol i fusnesau a oedd wedi prynu offer drwy gynlluniau FBIS a RBISF.

4.26 Daethom o hyd i dystiolaeth o gynlluniau'n ei chael yn anodd sicrhau'r ymgysylltiad gofynnol gan fuddiolwyr mewn chwech o'r adroddiadau, gyda diffyg amser ac adnoddau cyffredinol yn arwain at ymddieithrio. Yn gysylltiedig â hyn, roedd y gofynion gweinyddol a lefel y manylder yr oedd eu hangen yn ystod y prosesau ymgeisio, monitro a hawlio yn feichus mewn rhai prosiectau; yn fwyaf nodedig o bosibl yn yr FBIS, a hyn wedi effeithio hyn ar fodlonrwydd buddiolwyr â'r cymorth.

4.27 Roedd pedwar o'r adroddiadau gwerthuso wedi rhoi tystiolaeth o gynlluniau yn ei chael yn anodd targedu eu hadnoddau yn ôl y bwriad. Cylch gwaith llawer o'r rhain yn benodol oedd targedu busnesau oedd â photensial twf uchel; fodd bynnag, canfu'r gwerthusiadau'n aml fod yr adnoddau wedi'u gwasgaru'n rhy denau, a'u bod yn aml yn cael eu defnyddio gan fusnesau nad oedd yn ymddangos bod ganddynt botensial cryf i dyfu.

4.28 Mae hyn yn cysylltu â her arall. Tynnodd dau adroddiad gwerthuso sylw at y risg y byddai buddiolwyr yn dibynnu gormod ar gymorth; codwyd themâu tebyg yn ystod ein hymgynghoriad â rhanddeiliaid, lle nodwyd y risg o "ormod o ddal dwylo". Soniodd rhanddeiliaid fod rhai staff wedi ceisio "rhedeg y busnesau drostynt". Er enghraifft, nododd un rhanddeiliad ei fod wedi clywed adroddiadau am swyddogion o brosiect penodol yn llunio'r ceisiadau i fusnesau gael mynediad at gymorth FBIS, yn hytrach nag yn trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau i'r busnesau wneud hynny eu hunain. Daeth hyn i'r amlwg hefyd yn yr adborth gan FBIS yn uniongyrchol, gydag un busnes yn nodi bod ymgynghorydd o brosiect arall wedi cwblhau'r "gwaith papur" ar eu cyfer. Mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd unrhyw ganlyniadau a

gynhyrchir. Canfu ein meta-adolygiad a'n hymgynghoriad â rhanddeiliaid y byddai staff gweithredu yn ei chael hi'n anodd o bryd i'w gilydd i wrthod cymorth pan nad oedd efallai'n briodol ei roi o dan gylch gwaith y cynlluniau. Y rheswm arall oedd diffyg proses glir ar gyfer diffinio 'busnesau sydd â photensial twf uchel', a pharamedrau clir ar gyfer maint y cymorth a ddylai fod ar gael.

4.29 Yn fwy cyffredinol, er bod rhai cynlluniau yn ymgorffori elfen yr oedd rhaid talu amdani (e.e. Helix) gan gael graddau amrywiol o lwyddiant, mae cryn gymorth wedi bod ar gael i fusnesau yn rhad ac am ddim yn bennaf. Dywedir bod rhai busnesau wedi parhau i gael cymorth drwy gydol y rhaglen, neu drwy gylchoedd oes sawl rhaglen (dros nifer o flynyddoedd); a thynnodd un arweinydd sylw at y ffaith bod yna ymateb negyddol bob tro pan arbrofwyd â chyflwyno tâl. Fel y nodwyd uchod, gallai un busnes yn aml gael cymorth sawl gwaith o sawl cynllun.

4.30 Gyda'i gilydd, roedd y materion hyn yn peri risg o greu diwylliant dibyniaeth; gallai hyn gael yr effaith o wneud rhai busnesau yn llai cynaliadwy (oherwydd eu dibyniaeth), a fyddai'n eu gadael mewn sefyllfa fregus pe bai cwtogi ar y cymorth. Fel y disgrifiodd rhanddeiliad arall, gosodwyd disgwyliadau uchel o ran maint y cymorth a gynigid, a hynny wedi creu sefyllfa o "dorri ffon i guro ein hunain".

4.31 Roedd consensws cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid bod angen "diddyfnu busnesau" oddi ar y cymorth a oedd ar gael yn rhad ac am ddim, ac yn aml heb gyfyngiadau clir o ran maint a hyd y cymorth a gynigid.

> "Rwy'n edrych ar rai busnesau ac yn meddwl 'Allaf i ddim credu eu bod yn dal i gael eu cefnogi'. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyfaddef y broblem honno a dweud 'dyma'r rheolau ymgysylltu' – e.e. os ydych wedi cael pum mlynedd o gefnogaeth ac nad ydych wedi tyfu yn yr amser hwnnw, yna ni ddylai pob contractwr fod yn eu cefnogi." (Cyfweliad â rhanddeiliaid)

4.32 Deallwn fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r broblem uchod drwy weithredu egwyddor o ddiwylliant "rhywbeth am rywbeth" mewn darpariaeth yn y dyfodol, lle bydd angen i fusnesau lofnodi 'contract economaidd' yn nodi'r hyn y disgwylir iddynt ei adennill ar fuddsoddiad y Llywodraeth (e.e. tyfu, amodau gwaith gwell, arferion mwy cynaliadwy). Fodd bynnag, cydnabu un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod y newidiadau hyn wedi bod yn "gamau bychain ac nad oeddent yn cael eu cymhwyso'n gyson".

4.33 Ymhellach, ar lefel strategol, er bod Llywodraeth Cymru am helpu busnesau llai i drosglwyddo i fod yn fwy o faint, awgrymodd swyddog polisi Llywodraeth Cymru nad oedd hyn yn cael digon o ffocws polisi gweithredol yn y gwahanol brosiectau a chynlluniau gweithredu. Yn weithredol, roedd y cynlluniau hyn ar gael yn gyffredinol ar gyfer segmentau penodol (micro, bach neu ganolig) heb gynlluniau datblygu cyson a fyddai'n mynd â busnesau ar daith tyfu / datblygu.

**Effaith economaidd**

4.34 Prif amcan Tuag at Dwf Cynaliadwy oedd cynyddu gwerth sector bwyd a diod Cymru o 30%, sef ei godi i £7bn erbyn 2020. Fel y gwelir yn Nhabl 4.1, cyflawnwyd y targed hwnnw flwyddyn yn gynnar, ac roedd y sector yn dal wedi gallu aros uwchlaw'r lefel trosiant honno er gwaethaf y dirywiad a achoswyd gan y pandemig yn 2020. Erbyn 2021, roedd y sector wedi rhagori ar ei lefel cyn y pandemig.

4.35 Mae'r tabl hefyd yn datgelu bod y sector yng Nghymru wedi tyfu'n gyflymach nag ar draws y DU gyfan. Yn wir, ers cyhoeddi Tuag at Dwf Cynaliadwy yn 2014, mae'r sector bwyd a diod yng Nghymru wedi tyfu 33%, sydd deirgwaith yn uwch na'r gyfradd twf a welwyd ledled y DU (11%). I'r gwrthwyneb, roedd cyfradd twf Cymru yn y cyfnod pum mlynedd blaenorol (h.y. rhwng 2009 a 2014) yn 22%, a oedd yn is na'r gyfradd ar draws y DU (30%). Byddai hyn yn awgrymu bod yr ymyriadau a wnaed yng Nghymru yn ystod cyfnod rhaglen RDP 2014 i 20 wedi cael effaith ar dyfu'r sector ar lefel facro.

**Tabl 4.1: Trosiant sector Bwyd a Diod yng Nghymru a'r DU, 2009–2021**

| | Cymru | | Y Deyrnas Unedig | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwerth (£ miliwn) | Newid o'r flwyddyn flaenorol | Gwerth (£ miliwn) | Newid o'r flwyddyn flaenorol |
| 2009 | 4,707 | | 102,720 | |
| 2010 | 5,217 | 11% | 110,459 | 8% |
| 2011 | 5,208 | 0% | 117,075 | 6% |
| 2012 | 5,161 | -1% | 120,308 | 3% |
| 2013 | 5,681 | 10% | 130,659 | 9% |
| 2014 | 5,754 | 1% | 133,422 | 2% |
| 2015 | 6,113 | 6% | 142,508 | 7% |
| 2016 | 6,857 | 12% | 144,252 | 1% |
| 2017 | 6,511 | -5% | 137,283 | -5% |
| 2018 | 6,833 | 5% | 141,031 | 3% |
| 2019 | 7,473 | 9% | 148,806 | 6% |
| 2020 | 7,155 | -4% | 148,561 | 0% |
| 2021 | 7,647 | 7% | 148,481 | 0% |

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r IDBR

4.36 Canfu'r gwerthusiad economaidd diweddaraf o'r sector a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fod y gadwyn gyflenwi bwyd a diod ehangach[32] wedi parhau i dyfu yn 2021. Roedd gan fusnesau yn y sector gyfanswm trosiant o £23.0bn ar gyfer 2021, sef cynnydd o 2.9% o'r £22.4bn ar gyfer 2020. Canfu ymhellach fod allforion ar draws 2021 wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â 2020, gan godi o £552m i £640m ar gyfer 2021 (cynnydd o 16%), a bod cyflog canolrifol yr is-sector gweithgynhyrchu bwyd a diod wedi cynyddu 24% rhwng 2015 a 2021 (o £18,598 i £23,045), a hyn yn fwy na chynnydd y DU o 18% dros yr un cyfnod. Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn dystiolaeth bellach o berfformiad economaidd cryf yn y sector yn ystod cyfnod y rhaglen.

4.37 Ceir tystiolaeth yn yr adroddiadau gwerthuso unigol fod y cynlluniau a ariannwyd gan yr RDP wedi cyfrannu at dwf y sector. Roedd y cyfraniadau hyn yn amrywio'n

[32] Mae hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaethyddiaeth a physgota, manwerthu a chyfanwerthu, ac arlwyo dibreswyl.

sylweddol, oherwydd y gwahaniaeth maint (h.y. gyda chyllidebau'n amrywio o lai na miliwn i fwy na 60 miliwn) a meysydd ffocws gwahanol y cynlluniau (h.y. nid oedd rhai yn ymwneud â chynhyrchu enillion economaidd uniongyrchol, ond â threialu ar gyfer gweithgareddau tymor hwy). Fodd bynnag, roedd saith adroddiad yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am effeithiau economaidd (sylwer y gallai cynlluniau eraill fod wedi cynhyrchu enillion cadarnhaol ond na nodwyd hynny mewn adroddiadau gwerthuso). Er bod cryn gyfyngiadau methodolegol yn y model a ddefnyddiwyd i amcangyfrif yr effaith economaidd, maent yn dangos bod y cynlluniau wedi rhoi elw cadarnhaol ar fuddsoddiad mewn termau ariannol. Yn wir, ymddengys fod prosiectau a chynlluniau FBIS a RBISF, Helix, a Cywain yn enwedig wedi cael effaith yn hynny o beth. Gyda'i gilydd, amcangyfrifwyd bod y rhain wedi cynhyrchu cannoedd o filiynau o effeithiau GVA, a hynny'n uwch na lefel y buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru drwy'r RDP.

4.38 Dylid trin y ffigurau hyn yn ofalus a dangosol yn unig ydynt, o ystyried y cyfyngiadau yn y dull (gweler yr adran Methodoleg). Yn ogystal, mae'n debygol y bydd rhywfaint o ddyblygu yn y ffigurau a adroddwyd, gyda llawer o fusnesau yn priodoli effeithiau trosiant i sawl cynllun gwahanol. Er bod mecanweithiau yn y methodolegau gwerthuso i liniaru'r effeithiau hynny, gellir disgwyl rhywfaint o ddyblygu yn yr effaith economaidd a adroddwyd ar draws y prosiectau a'r cynlluniau. Serch hynny, maent yn rhoi syniad o raddfa'r effaith y mae'r cynlluniau a ariannwyd gan yr RDP wedi esgor arnynt.

**Effaith amgylcheddol**

4.39 Mae effeithiau amgylcheddol y cynlluniau yn llawer mwy cymhleth i'w mesur, gan nad oedd yr un o'r gwerthusiadau yn cynnwys asesiad cadarn, mesuradwy (megis cyfrifo gostyngiad mewn allyriadau $CO_2$). Mae hyn yn rhannol oherwydd nad cyflawni effeithiau amgylcheddol o'r fath oedd prif ffocws y cynlluniau.

4.40 Wedi dweud hynny, roedd y rhan fwyaf o'r gwerthusiadau a adolygwyd gennym (9/13) yn cynnwys rhywfaint o naratif ynghylch effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Efallai mai'r enghraifft orau yw'r gwerthusiad o gynlluniau FBIS/RBISF, a ganfu fod 41% o fuddiolwyr wedi dweud bod eu prosiectau wedi creu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol (er bod rhaid nodi bod hynny'n seiliedig ar ddata hunangofnodedig, sy'n oddrychol). Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r arbedion effeithlonrwydd cynyddol a gynhyrchwyd gan y prosesau newydd a brynwyd ganddynt (adroddodd 17% hyn),

tra bod 11% wedi defnyddio rhywfaint o'r cyllid i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy; yn ogystal, cyfeiriodd 9% at welliannau i'w prosesau ailgylchu (gan gynnwys enghreifftiau o drosi ynni o brosesau eraill) a gwell rheolaeth ar wastraff. Dywedodd 19% arall eu bod wedi byrhau eu cadwyn gyflenwi, gan arwain at fwyd yn teithio llai o filltiroedd. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso'r manteision hyn yn erbyn y cynnydd mewn cynhyrchiant a milltiroedd bwyd i fusnesau a oedd wedi cael mynediad i farchnadoedd daearyddol ehangach o ganlyniad i'r cymorth. Er na allai'r gwerthusiad nodi effaith y cynlluniau'n bendant, mae cydbwysedd y dystiolaeth yn awgrymu eu bod yn wir wedi cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, drwy'r buddsoddiad o fwy na £60m mewn offer a phrosesau gwell.

4.41 Mae Prosiect Helix yn gynllun arall a arweiniodd at brosesau mwy amgylcheddol gynaliadwy mewn busnesau bwyd a diod, er mai dim ond lleiafrif bach o fuddiolwyr (18%) a ddywedodd fod eu cyfranogiad wedi arwain at ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Cododd themâu tebyg, gyda 18% yn dweud eu bod wedi lleihau eu hôl troed carbon, 15% wedi byrhau eu cadwyn gyflenwi drwy brynu mwy o ddeunyddiau crai gan gynhyrchwyr lleol, ac 11% wedi lleihau faint o brosesu cynnyrch a oedd yn digwydd y tu allan i Gymru. Cyfeiriodd eraill at becynnu mwy cynaliadwy (h.y. llai o ddefnydd o blastigau), llai o wastraff bwyd (e.e. drwy safoni eu dull cynhyrchu), a defnyddio llai o ynni drwy brosesau mwy effeithlon.

4.42 Mae adroddiadau gwerthuso Sgiliau Bwyd Cymru a Cywain yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth o effeithiau amgylcheddol. Er enghraifft, bu rheolwyr Cywain yn trafod ac yn cynllunio camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol gyda chleientiaid trwy eu cyfarfodydd un-i-un, gyda rhai enghreifftiau o gefnogaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu pecynnau mwy cynaliadwy. Yn ogystal, anogwyd y clystyrau i drafod materion datblygu cynaliadwy, gan gynnwys cyfleoedd i brynu ar y cyd (i arbed costau, ac ar gyfer y manteision amgylcheddol). Ymhellach, trefnwyd gweminarau ar becynnu cynaliadwy; ac, mewn enghraifft arall, cydweithiodd Cywain â Wrap Cymru i godi ymwybyddiaeth am wastraff bwyd. Cynhaliodd Sgiliau Bwyd Cymru gyrsiau hyfforddi a mentrau i sicrhau bod buddiolwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion sy'n newid yn barhaus, gan gynnwys yr angen i leihau gwastraff bwyd a hyrwyddo cynaliadwyedd. Nodwn, fodd bynnag, mai ychydig o bwyslais a roddwyd ar effeithiau amgylcheddol yn y ddau adroddiad hyn.

4.43 Tyfu Cymru sy'n rhoi un o'r enghreifftiau gorau o'r effeithiau amgylcheddol a gynhyrchwyd drwy'r cynlluniau bwyd a diod a ariannwyd gan yr RDP, er yng nghyd-destun cynllun ar raddfa lai. Canfu'r gwerthusiad fod y rhan fwyaf o fusnesau wedi gwneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol o ganlyniad i'r cymorth. Y prif newid cadarnhaol oedd gallu cryfach busnesau i adnabod plâu a chlefydau a'u defnydd o bryfed buddiol, gyda 36% yn nodi hyn, ac yna 24% yn adrodd gostyngiad yn eu defnydd o blaladdwyr. Adroddwyd hefyd ar ystod o ganlyniadau eraill, gan gynnwys 15% yn symud tuag at ddulliau cynhyrchu mwy organig, dulliau mwy cynaliadwy o ddiogelu cnydau, a chyflwyno defnydd mwy effeithlon o ddŵr; tra bod 13% wedi lleihau eu gwastraff, ac 11% wedi mabwysiadu arferion i hybu pridd iach.

4.44 Yn olaf, roedd tri o'r cynlluniau amaethyddol mwyaf a oedd wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad wedi pwysleisio'n fawr fod ffermwyr yn mabwysiadu arferion mwy cynaliadwy.

**Alinio ag amcanion strategol**

4.45 Mae aliniad clir rhwng y cynlluniau bwyd a diod a ariannwyd gan yr RDP a'r amcanion strategol ar gyfer y sector yng Nghymru, fel y'u nodir yn y papur Gweledigaeth Strategol. I'ch atgoffa, dyma'r pedwar nod allweddol a amlinellir yn y papur:

1. Sicrhau llwyddiant economaidd drwy dyfu busnesau o ran eu maint, eu gwerth a'u cynhyrchiant;
2. Sicrhau'r lefelau uchaf o gynaliadwyedd amgylcheddol;
3. Creu gwaith deniadol a theg i bobl;
4. Hyrwyddo Cymru yn fyd-eang fel Cenedl Fwyd.

4.46 Cyfrannodd naw o'r 13 cynllun a adolygwyd gennym yn uniongyrchol at yr uchelgais o gynhyrchu twf; fel rheol roedd hyn yn rhan o brif amcan y cynllun. Yn wir, fel y nodwyd eisoes, roedd gan sawl cynllun y cylch gorchwyl penodol o dargedu busnesau â photensial twf uchel a chreu llwybr gwell at dwf. Ymhellach, roedd natur y gweithgareddau a gynhaliwyd gan y prosiectau a'r cynlluniau gan amlaf yn cynnwys ymdrechion i gynhyrchu twf – megis trwy ddatblygu llwybrau newydd i'r farchnad (e.e. y platfform ar-lein a ddatblygwyd gan DiscoverDelicious, neu'r cymorth a roddwyd gan Cywain); cynyddu cynhyrchiant (e.e. drwy gymorth grant cyfalaf i gynyddu gallu prosesu); a'r gefnogaeth gan Helix, gan ymateb i'r

rhagdybiaeth bod twf cwmnïau bwyd a diod yn dibynnu ar 'hyder technegol' y cynhyrchydd bwyd.

4.47 Roedd naw cynllun hefyd wedi ceisio creu mwy o gynaliadwyedd yn y sector (er mai anaml y ceid hwn yn brif amcan, fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol). Efallai mai'r prif enghreifftiau yw'r gwaith a wnaed gan Helix, FBIS ac RBIS i symud busnesau bwyd a diod tuag at arferion cynhyrchu mwy effeithlon. Er enghraifft, roedd effeithlonrwydd bwyd yn un o dri amcan strategol ar gyfer Prosiect Helix, gan gynnig cefnogaeth mewn meysydd datblygu systemau, rheolaethau prosesau, dylunio safleoedd, a phecynnu; ac roedd pob un ohonynt yn canolbwyntio ar greu mwy o gynaliadwyedd. Rhoddodd Tyfu Cymru a'r Rhaglen Datblygu Cig Coch gryn bwyslais hefyd ar greu mwy o gynaliadwyedd ym meysydd garddwriaeth ac amaethyddiaeth yn y drefn honno.

4.48 Roedd pedwar cynllun yn canolbwyntio ar yr amcan yn ymwneud â hyrwyddo'r sector a chodi safonau. Er enghraifft, cynhaliodd DiscoverDelicious a Cywain gryn dipyn o weithgarwch i hyrwyddo brandio Cymreig. Darparodd y cyntaf lwyfan newydd (a brand cysylltiedig) ar gyfer hyrwyddo cynnyrch Cymreig, a gweithiodd yn agos gyda mentrau eraill, megis prosiectau Helgig Cymru a Datblygu Bwyd Môr, i hyrwyddo is-sectorau penodol. Ar y llaw arall, canolbwyntiai Cywain yn arbennig ar hyrwyddo bwyd a diod o Gymru mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol; yn ogystal, nodwyd mai canlyniad allweddol wrth godi proffil bwyd a diod Cymru yn gyffredinol oedd ei rôl yn proffesiynoli busnesau a sut mae eu cynhyrchion yn edrych ac yn cael eu marchnata (yn unol â brand ehangach Bwyd a Diod Cymru). Yn ogystal, cyfrannodd Cywain, ynghyd â Helix a Sgiliau Bwyd Cymru, at gynyddu achrediadau a diogelwch bwyd trwy gefnogi busnesau i gymryd y camau hynny. Roedd gan Helix rôl arbennig o bwysig wrth wella diogelwch bwyd trwy ei gymorth technegol i ddatblygu ac ailffurfio cynnyrch.

4.49 Roedd tri chynllun wedi helpu i gyflawni'r uchelgais o greu gwaith deniadol a theg; yn arbennig trwy ymdrechion Sgiliau Bwyd Cymru, a'i brif bwyslais oedd cynyddu sgiliau'r gweithlu (dangosodd gwerthusiad Sgiliau Bwyd Cymru gydberthynas glir rhwng y gweithgaredd uwchsgilio a bonws adeg arfarnu). Yn ogystal, gofynnwyd i sefydliadau a wnâi gais am gymorth gan FBIS ddangos sut y byddai eu prosiectau'n cyfrannu at yr agenda o gyflawni gwaith teg; fodd bynnag, nodwn nad oedd unrhyw

fecanwaith i fonitro cyflawni'r uchelgeisiau hynny, ac i sicrhau bod buddiolwyr yn cyflawni'r hyn a nodwyd ganddynt yn y cais.

4.50 Yn ogystal ag alinio ag amcanion allweddol y sector, roedd y cynlluniau hefyd yn amlwg wedi helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, megis datblygu Cymru fwy ffyniannus a chydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru o gymunedau cydlynus.

4.51 Efallai mai'r prif aliniad yw'r nod o greu 'Cymru lewyrchus', o ystyried y prif bwyslais ar gynhyrchu twf drwy'r pecyn cymorth cyfan. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd yn agos â'r is-destun sy'n sail i'r nod, wrth iddo gyfeirio at arloesi, cynhyrchiant, uwchsgilio, a darparu cyfleoedd cyflogaeth – pob un ohonynt yn themâu pwysig yn y cymorth a gynigid.

4.52 Ffynhonnell arall sy'n aliniad cryf yw'r nod o greu 'Cymru sy'n fwy cyfartal', gyda'r pwyslais ar sicrhau swyddi yng nghefn gwlad Cymru. Cynigid y cymorth yn unol ag is-destun y nod, sef nod a oedd yn amlinellu gweledigaeth o greu "cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)". Mae cysylltiadau clir â'r themâu a amlinellir yn y nod, yn enwedig mewn perthynas â darparu "cyfleoedd addysg – galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd i'w cyflawni" (Sgiliau Bwyd Cymru yw'r enghraifft orau o hyn) a 'gwaith teg', er bod y gallai ffocws ar yr olaf fod wedi bod yn gryfach.

4.53 Mae rhywfaint o aliniad hefyd â'r nod o greu 'Cymru iachach'. Efallai mai Prosiect Helix yw'r enghraifft orau o hyn, o gofio ei ffocws ar ddiogelwch bwyd. Mae yna hefyd gysylltiadau â'r nodau i greu 'Cymru gydnerth' a 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang', drwy hwyluso defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Mae hyn yn ymwneud â'r effeithiau a ddisgrifir uchod, o brosiectau megis Helix, FBIS a RBISF, o ran cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd yn y prosesau cynhyrchu; tra bod gan raglenni Tyfu Cymru a Datblygu Cig Coch amcanion tebyg ym maes garddwriaeth ac amaeth. Mae'r rhain yn cysylltu â'r nod o greu 'Cymru o gymunedau cydlynus' drwy ddarparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth mewn cymunedau lleol, a rhywfaint o'r gwaith i annog cadwyni cyflenwi byrrach a mwy o gyfleoedd caffael cyhoeddus y gellir eu cyrchu'n lleol – sydd hefyd yn gysylltiedig â'r agenda economaidd sylfaenol. Yn olaf, ar sail debyg, mae cysylltiadau â'r uchelgais o greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' (ac felly'r uchelgeisiau yn Cymraeg 2050), oherwydd creu

mwy o gyfleoedd swyddi yn yr economi wledig ac mewn sectorau megis amaethyddiaeth, gan eu bod yn anghymesur o bwysig mewn perthynas â'r Gymraeg. Gallai darparu cyfleoedd o'r fath arwain at fwy o siaradwyr Cymraeg yn gallu aros yn eu cymunedau lleol, yn hytrach na gorfod symud i rywle arall i chwilio am waith.

**Cyfrannu at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru**

4.54 Roedd yn rhaid i brosiectau a chynlluniau a ariannwyd o dan RDP Cymru ddangos sut yr oeddent yn mynd i'r afael â'r tair thema drawsbynciol, sef:

1. Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhyw, a'r Iaith Gymraeg;
2. Datblygu Cynaliadwy;
3. Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

4.55 Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y cynlluniau yn cyd-fynd â'r nod llesiant o greu 'Cymru sy'n fwy cyfartal', a hefyd yn cyfrannu at y Gymraeg yn ffynnu; felly, am yr un rhesymau, gellir eu halinio â'r thema drawsbynciol gyntaf a nodir uchod. Wrth adolygu'r adroddiadau gwerthuso, gwelwyd mai arferion mewnol y sefydliadau cyflenwi eu hunain oedd rhai o'r themâu mwyaf cyffredin wrth ddangos tystiolaeth o gefnogi'r thema gyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys eu polisïau (e.e. ynghylch cyfle cyfartal), cydbwysedd rhwng y rhywiau yn eu timau cyflenwi, darpariaeth ddwyieithog (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg yn eu tîm, a sicrhau bod yr holl ddeunyddiau'n ddwyieithog), a'r ffaith eu bod yn darparu cymorth 'nad oed yn gwahaniaethu'. Dywedodd rhai eu bod wedi gwneud ymdrech ymwybodol yn ystod ymgyrchoedd marchnata i ddosbarthu cynnwys a oedd yn cynrychioli llu o grwpiau demograffig.

4.56 O ran datblygu cynaliadwy, roedd rhai gweithgareddau yn sicr yn mynd i'r afael â'r thema hon, fel yr ydym wedi'i drafod ar sawl adeg yn y bennod hon. Dangosodd adolygiad o'r adroddiadau gwerthuso yr aethpwyd i'r afael â'r thema ar ddwy lefel – sef trwy arferion gwaith mewnol y cynlluniau, a thrwy eu darpariaeth gwasanaeth. Rydym eisoes wedi archwilio'r olaf yn fanwl (h.y. y gefnogaeth i gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd, cadwyni cyflenwi byrrach, ac ati). O ran y cyntaf, roedd llawer o'r prosiectau a'r cynlluniau wedi mabwysiadu model cyflenwi cymysg (yn enwedig ar ôl y pandemig), ac wedi lleihau eu teithio trwy weithio o bell a chyfarfodydd rhithwir.

4.57 Mae cysylltiadau clir â'r thema 'mynd i'r afael â thlodi', o ystyried mai'r cylch gwaith craidd ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynlluniau oedd cynhyrchu twf, yn gyffredinol drwy

dargedau creu swyddi, ac o bryd i'w gilydd disgwyliad i sicrhau gwaith teg. Er ei fod wedi'i gyfyngu gan gyfyngiadau methodolegol, mae'r asesiad o'r effaith economaidd a geir yn y gwerthusiadau unigol yn awgrymu bod cannoedd o filiynau wedi'u cynhyrchu mewn enillion economaidd i fusnesau. Felly, gyda'i gilydd, mae'r prosiectau a'r cynlluniau yn debygol o fod wedi gwella'n fawr gadernid a chynaliadwyedd yr economi wledig yng Nghymru. Ymhellach, er nad oedd yn flaenoriaeth arbennig i'r cynlluniau, roedd gan rai prosiectau rôl wrth fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol; er enghraifft, soniodd rhai busnesau am fudd emosiynol cymryd rhan yng ngweithgarwch y clwstwr. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i fasnachwyr unigol, gyda rhai yn dweud bod y clystyrau yn gwneud iddynt deimlo'n llai ynysig. Roedd rhai enghreifftiau hefyd lle'r oedd prosiectau wedi cynnal gweithgareddau yn benodol i gefnogi llesiant cleientiaid, megis drwy fideos iechyd a llesiant ar-lein, gweithdai, a gwasanaeth cwnsela (yn enwedig yn ystod y pandemig). Yn ogystal, byddai rheolwyr cyfrifon yn cynnig cymorth emosiynol a meithrin hyder fel rhan o'u dull o reoli cydberthnasau â chleientiaid.

**Cyfraniad at amcanion trawsbynciol y Comisiwn Ewropeaidd**

4.58 Yn olaf, o gofio bod y prosiectau a'r cynlluniau hyn yn cael eu cynnal drwy gyllid yr UE, roedd disgwyl hefyd iddynt ddangos sut yr oeddent wedi mynd i'r afael ag amcanion trawsbynciol y Comisiwn Ewropeaidd:

1. Arloesi
2. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
3. Newid yn yr Hinsawdd.

4.59 Mae tebygrwydd clir rhwng yr ail a'r trydydd amcan â'r ail thema drawsbynciol a nodwyd uchod (datblygu cynaliadwy); yn ogystal â'r effaith amgylcheddol a drafodir yn ehangach yn y bennod hon. Fel y nodwyd, roedd y rhan fwyaf o brosiectau a chynlluniau'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd amgylcheddol a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, yn bennaf drwy helpu busnesau i ddatblygu prosesau mwy effeithlon a chreu cadwyni cyflenwi byrrach. Fodd bynnag, nodwn mai amcan eilaidd oedd hwn yn gyffredinol, gan fod â ffocws llawer cryfach ar dwf economaidd.

4.60 Mae'n amlwg bod y prosiectau a'r cynlluniau wedi cyflawni yn erbyn y nod trawsbynciol cyntaf. Yn wir, arloesi oedd hanfod cyfan Prosiect Helix, gyda chymorth technegol yn cael ei ddarparu yn ei ganolfannau arloesi i gynorthwyo â datblygu cynnyrch newydd ac ailffurfio cynnyrch. Dim ond ar gyfer datblygu

prosesau newydd mewn busnesau y gellid defnyddio buddsoddiadau FBIS a RBISF, a hynny felly'n sicrhau eu bod yn buddsoddi mewn arloesi. Roedd Cywain yn brosiect hynod arloesol, gan fod ganddo dîm arloesi â'r dasg o ddatblygu is-brosiectau a chynlluniau newydd er budd eu cleientiaid (e.e. datblygu menter siop ddigidol yn ystod y pandemig). Roedd pob prosiect a chynllun yn canolbwyntio rhywfaint ar arloesi drwy annog busnesau i fabwysiadu arferion newydd neu gyrraedd marchnadoedd newydd.

# 5. Casgliadau ac argymhellion

5.1 Mae ein hadolygiad lefel uchel o'r cynlluniau bwyd a diod a ariannwyd gan yr RDP wedi dangos pecyn cymorth hynod gynhwysfawr, ac fe'i disgrifiwyd i fod yn ddigyffelyb yn y Deyrnas Unedig, gan fod â bron bob elfen o anghenion y sector. Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau wedi cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y dogfennau polisi ar gyfer y cyfnod hwn (sef Tuag at Dwf Cynaliadwy, a'r Weledigaeth Strategol gyfredol), ac maent wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth greu twf i'r sector. Mae'r cynlluniau hefyd wedi helpu i wella cynaliadwyedd amgylcheddol y sector, yn ogystal â chodi safonau a chyfrannu at waith tecach, er bod tystiolaeth o'r canlyniadau hynny'n fwy cyfyngedig. Gyda'i gilydd, mae'r effeithiau yr esgorwyd arnynt ar gyfer y sector yn cynnig achos cryf dros barhad y cymorth.

5.2 Fodd bynnag, gan fod cyllid yr UE wedi dod i ben, mae'n ofynnol yn awr i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus pa agweddau ar y cymorth a gynigir y dylai barhau i'w gefnogi yn y tymor canolig yn y dyfodol (h.y. y tu hwnt i'r rhai a etifeddwyd sydd yn cael eu hariannu nawr). Er bod ein hadolygiad ar y cyfan yn rhoi portread cadarnhaol iawn o'r cymorth a roddwyd i'r sector bwyd a diod, mae hefyd wedi canfod meysydd y gellid eu gwella ac y mae angen rhoi sylw iddynt. Isod, rydym yn rhestru'r prif ganfyddiadau o'n hadolygiad, cyn amlinellu cyfres o argymhellion i helpu i lywio darpariaeth yn y dyfodol.

**Prif ganfyddiadau**

Trosolwg o'r sector a chyd-destun polisi

5.3 Bwyd a diod yw un o sectorau busnes mwyaf Cymru, ac i gymharu mae'n bwysicach yng Nghymru nag ar lefel y DU. Mae'r sector hefyd wedi gogwyddo'n drymach tuag at fusnesau bach iawn yng Nghymru, o gymharu â'r sector ar lefel y DU.

5.4 Fel sector economaidd â blaenoriaeth, mae bwyd a diod wedi cael cryn gefnogaeth a ffocws mewn polisïau, gyda phwyslais cryf ar gyflawni twf economaidd, gwneud y sector yn fwy cynaliadwy, creu gwaith deniadol a theg, a hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd.

5.5 O ran sicrhau twf economaidd, bu ffocws polisi cryf ar dargedu'r cymorth at fusnesau sydd â 'photensial ar gyfer twf uchel', a chreu llwybr gwell at dwf ar gyfer

busnesau micro a bach nad ydynt wedi gallu mynd y tu hwnt i farchnadoedd lleol. Yn hynny o beth, bu uchelgais i greu 'llwybr iach' i gael microfusnesau i dyfu yn gwmnïau bach, ac ehangu rhai bach hwythau yn fusnesau canolig eu maint.

5.6 Mae'n ymddangos bod heriau penodol yn y sector bwyd a diod sy'n atal llwybr o'r fath rhag ffurfio. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n ymwneud yn benodol â'r diwydiant, sef elw isel, oes silff y cynnyrch, pecynnu, ac anawsterau dosbarthu, ynghyd â bylchau mewn sgiliau rheoli technegol ac ariannol, a thrwy hynny yn creu'r angen am gymorth. Her arall yw'r argraff am y cyfleoedd gyrfa yn y sector, sef "nad yw gweithwyr yn gweld llwybrau gyrfa amlwg".

5.7 Er bod Llywodraeth Cymru wedi anelu at helpu busnesau llai i drosglwyddo i fod yn fwy o faint, ni roddwyd digon o ffocws gweithredol mewn polisïau i hyn wrth roi'r gwahanol brosiectau a chynlluniau ar waith. Yn weithredol, dim ond ar gyfer segmentau penodol (micro, bach neu ganolig) y mae'r cynlluniau hyn wedi bod ar gael yn gyffredinol, heb gynlluniau datblygu cyson i fusnesau ar eu taith yn tyfu a datblygu.

5.8 Ymhellach, awgryma ymchwil diweddar y byddai targedu buddsoddiad at fusnesau mwy o faint yn cynhyrchu gwell elw economaidd i Gymru. Mae hyn oherwydd bod busnesau llai o faint (<50 o staff) yn cynhyrchu buddion lluosydd llawer llai, oherwydd eu bod yn gollwng llawer mwy o ran colledion i gadwyni cyflenwi y tu allan i Gymru. Ar y naill law, awgryma hyn y byddai buddsoddi mewn busnesau mwy o faint yn strategaeth well ar gyfer gwireddu uchelgeisiau twf Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwn fod y busnesau mwy hyn yn tueddu i fod â'u pencadlys y tu allan i Gymru, heb yr un cysylltiad emosiynol â'r wlad, ac felly mewn perygl o benderfyniadau a wneir yn allanol. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ffafrio codi nifer fawr o fusnesau brodorol i symud i fyny'r raddfa maint; tra gallai fod ffocws cryfach ar y busnesau brodorol Cymraeg canolig eu maint.

5.9 Ymhellach, canfu'r ymchwil fod diffyg o ran cadw gwariant ar gadwyn gyflenwi yng Nghymru ei hun, gan fod cadwyni cyflenwi o fewn y sector atodol i'w canfod yn bennaf y tu allan i'r wlad, a bod hyn yn un o'r prif rwystrau i gynyddu'r gwerth economaidd a gynhyrchir gan y sector.

Ehangder a chyfatebolrwydd y pecyn cymorth

5.10 Mae gan Gymru dirwedd gyfoethog o gymorth a chefnogaeth i'w sector bwyd a diod, a hynny'n cynnwys nifer o gynlluniau blaenllaw wedi'u hariannu gan

Lywodraeth Cymru o dan RDP 2014 i 2020. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cynnig elfen o hyfforddiant a sgiliau, tra bod gan lawer elfen rwydweithio neu glystyru. Roedd tua hanner ohonynt yn cynnig cymorth busnes un-i-un fel un o'r prif ddulliau darparu. Roedd sawl cynllun wedi canolbwyntio ar agweddau megis datblygu'r gadwyn gyflenwi, datblygu llwyfan gwerthu newydd i fusnesau, ymchwil a datblygu, darparu mewnwelediad i'r sector, a chymorth marchnata. Roedd dau gynllun wedi cynnig buddsoddiad cyfalaf mawr i gynyddu gallu prosesu'r sector yng Nghymru. Canolbwyntiai'r cynlluniau hyn gan mwyaf ar drosglwyddo gwybodaeth, tra bod themâu eraill yn cynnwys gweithgarwch ehangu, cefnogi gwerthiannau, gwella galluogrwydd cyllid, arloesi, cymorth brandio a marchnata, a chaffael cyhoeddus.

5.11 Canfu ein hadolygiad fod gwahanol gynigion y cynlluniau, yn gyffredinol, yn rhoi aliniad a chyfatebiaeth gref, gan ymateb i'r amcanion strategol a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn wir, mae'r un busnesau yn aml wedi cael eu cefnogi gan sawl cynllun ar wahanol elfennau o'u huchelgeisiau twf; mae hyn yn arwydd pellach o gyd-fynd yn gryf â'i gilydd.

5.12 Fodd bynnag, er bod y cynlluniau ar y cyfan yn cynnig lefel dda o gyfatebiaeth gan fod â llinellau gweithredu clir, eto roedd rhywfaint o drawsgroesi, a'r llinellau hynny wedi mynd yn aneglur ac yn niwlog. Er enghraifft, roedd gan lawer gylch gorchwyl a model gweithredu tebyg a oedd yn cynnig cymorth rheoli cyfrifon allweddol a chynnal rhwydwaith i gynhyrchwyr bwyd a diod. Yn ogystal, roedd mwy o orgyffwrdd â darpariaethau nad oeddent yn cael eu hariannu gan yr RDP, a dyblygu o bosibl felly. Er enghraifft, Busnes Cymru sy'n darparu'r cymorth craidd i bob busnes yng Nghymru (gan gynnwys y sector bwyd a diod), a hynny'n golygu rhywfaint o orgyffwrdd â'r cymorth datblygu busnes a gynigia sawl un o'r cynlluniau a ariannwyd gan yr RDP.

5.13 Cafwyd llawer o enghreifftiau o gydweithio da rhwng y cynlluniau; roedd hyn yn bennaf ar ffurf croesgyfeiriadau ac atgyfeirio. Serch hynny, gallai'r gweithgarwch croesgyfeirio hwn fod yn ysbeidiol a gwasgaredig; dibynnai'n aml ar aelodau unigol o staff yn meddu ar yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth i wneud yr atgyfeiriadau, a hefyd yn dibynnu ar fusnesau yn tynnu sylw at eu hanghenion. Dywedodd rhanddeiliaid nad oedd croesgyfeirio yn gyffredinol wedi'i ymgorffori yn arferion gweithredu'r cynlluniau; mae hyn yn debygol o fod wedi golygu colli cyfleoedd i

ddarparu'r pecyn cymorth llawn a allai fod ar gael i fusnesau, er mwyn sicrhau'r effeithiau mwyaf posibl.

5.14 Roedd enghreifftiau eraill o gydweithio effeithiol, er bod y rhain wedi'u seilio'n bennaf ar yr ewyllys da a'r blaengaredd a ddangoswyd gan arweinwyr wrth drefnu gweithgareddau ar y cyd. Mewn cyferbyniad, disgrifiwyd y dirwedd cymorth a chefnogaeth hefyd fel "cloddfa ddryslyd" i fusnesau geisio llywio'u ffordd drwyddo.

5.15 Er bod y pecyn cymorth yn ymateb yn uniongyrchol i'r amcanion polisi a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, efallai y gellid wedi cael pwyslais mwy penodol ar themâu fel gwaith teg, enw da a safonau, a hyrwyddo'r sector bwyd a diod yn ehangach. Yn ogystal, cododd rhanddeiliaid ddau faes arall i'w gwella yn gysylltiedig ag ehangder y cymorth a gynigir, sef: yn gyntaf, mwy o bwyslais ar wneud y mwyaf o'r cyfleoedd o gaffael cyhoeddus; ac yn ail, ffocws cryfach ar greu gwell llwybrau gyrfa, a newid argraff pobl am y sector fel diwydiant i weithio ynddo.

5.16 Ar gyfer darparu cymorth i'r dyfodol, ymddengys y bu rhywfaint o symud tuag at osod mwy o ddisgwyliadau ar fuddiolwyr i gael adenillion ar fuddsoddiad, megis drwy ffurfioli'r cysyniad o gontract economaidd. Fodd bynnag, tynnodd swyddog polisi Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith nad oedd hyn yn mynd yn ddigon pell, a'i fod yn annhebygol o arwain at newid ystyrlon. Deallwn y bydd iteriad nesaf y cynlluniau cymorth yn cynnwys elfen o frysbennu a choladu data'n ganolog. Bydd angen i'r gweithgaredd hwn gael digon o adnoddau i sicrhau'r effaith a fwriedir ar gyfer creu pecyn cymorth mwy integredig ac effeithiol.

Perfformiad ac effeithiau'r ddarpariaeth

5.17 Ar y cyfan, canfu'r adroddiadau gwerthuso lefel uchel o fodlonrwydd â'r cymorth a gynigid, a bod y prosiectau a'r cynlluniau wedi'u cyflawni'n effeithiol. Y 'cryfder' a nodwyd amlaf yn y ddarpariaeth oedd arbenigedd y tîm cyflawni ac effeithiolrwydd y cynnig, a hyn wedi dangos pwysigrwydd y cyrff cyfryngol o ran darparu'r cymorth. Yn fwy penodol, canfuwyd bod hyblygrwydd ac addasrwydd y cymorth a gynigid, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio arbenigedd allanol, hefyd ymhlith y prif gryfderau.

5.18 I'r gwrthwyneb, roedd y prif heriau yn cynnwys buddiolwyr yn peidio ag ymgysylltu mewn rhai achosion, y baich gweinyddol a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chyllid yr RDP, yr anallu i dargedu'r cymorth fel y'i bwriadwyd (e.e. at fusnesau sydd â photensial twf uchel), ac yn achlysurol, "gormod o ddal dwylo". Yn gysylltiedig â'r pwynt olaf, canfuom hefyd ddiffyg pwyntiau ymadael clir i fusnesau adael y cymorth,

gyda rhai yn cael cymorth dros nifer o flynyddoedd ac yn rhad ac am ddim gan mwyaf. Mae hyn yn codi cwestiynau am gynaliadwyedd y cymorth a'i ganlyniadau i fusnesau, ynghyd â'r risg o greu diwylliant dibyniaeth.

5.19 Roedd twf y sector bwyd a diod yng Nghymru yn llawer uwch na'r targed ar gyfer y cyfnod hyd at 2020, gyda throsiant yn fwy na £7 biliwn erbyn diwedd y degawd; ar ben hynny, roedd cyfradd y twf yn llawer uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Er bod llawer o anawsterau wrth fesur effaith yr ymyriadau cymorth, oherwydd nifer o gyfyngiadau yn y data a'r methodolegau a ddefnyddiwyd, eto amcangyfrifir eu bod wedi cynhyrchu cannoedd o filiynau o enillion economaidd i fusnesau, ac felly wedi cyfrannu at y twf a welwyd yn y sector.

5.20 Mae effaith amgylcheddol y cynlluniau hefyd yn gymhleth i'w mesur, er bod cydbwysedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gynlluniau wedi cael effaith amgylcheddol gadarnhaol. Roedd hyn yn aml o ganlyniad i fwy o effeithlonrwydd a gynhyrchwyd gan y prosesau newydd a ddatblygwyd o ganlyniad i'r cymorth; buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy; gwelliannau i brosesau ailgylchu a rheoli gwastraff; datblygu pecynnau mwy cynaliadwy; byrhau cadwyni cyflenwi; a datblygu arferion mwy cynaliadwy yn y byd garddwriaeth a ffermio.

5.21 Gyda'i gilydd, mae'r effeithiau hyn yn dangos aliniad cryf ag amcanion strategol y sector yng Nghymru, gan fod y rhan fwyaf o gynlluniau wedi cyfrannu'n uniongyrchol at yr uchelgais o greu twf a mwy o gynaliadwyedd, tra bod rhai wedi ceisio hyrwyddo'r sector, gwella safonau, a chreu gwaith deniadol a theg.

### Argymhellion

5.22 Ar sail y canfyddiadau hyn, gwneir yr argymhellion a ganlyn.

5.23 Argymhelliad 1: dylai'r pecyn cymorth gael ei integreiddio'n well. Rydym ar ddeall y bydd y cynlluniau blaenllaw newydd yn cynnwys rhai elfennau o reoli cysylltiadau a storio gwybodaeth yn ganolog, ac mae hyn yn gamau cadarnhaol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan y tîm canolog ddigon o adnoddau i alluogi pob busnes i gael gafael ar wahanol elfennau'r cymorth sydd eu hangen arnynt, a bod modd defnyddio cyfatebolrwydd y cynnig yn llawn drwy driongli effeithiol. Yn y tymor canolig, dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu nifer llai o gynlluniau (sydd â ffocws ehangach), er mwyn osgoi rhywfaint o'r gorgyffwrdd a'r dyblygu posibl a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Dylai'r cynlluniau hyn ymgorffori'r dull pwrpasol a hyblyg, ynghyd â'r defnydd o arbenigedd allanol lle bo angen, sydd wedi

nodweddu llawer o’r gwaith cyflawni y soniwyd amdano yn yr adolygiad hwn, er mwyn sicrhau bod busnesau’n cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Bydd cael prosesau effeithiol ar gyfer triongli a chydlynu â busnesau yn hollbwysig er mwyn gallu cynnig y dull newydd hwn yn fwy cyfannol, a thrwy hynny sicrhau’r cyfleoedd mwyaf posibl i fusnesau. Yn y tymor byrrach, gellid ymgorffori gwell cydweithio ac integreiddio agosach rhwng y gwahanol gynlluniau drwy amlinelliadau a chyfarwyddiadau desg mwy effeithiol i helpu staff a buddiolwyr – megis diagramau syml neu siartiau llif yn nodi’r holl gynlluniau a sut y maent yn cysylltu â’i gilydd.

5.24 Argymhelliad 2: Sefydlu pwynt mynediad sy’n ganolog. Ynghyd â’r pecyn cymorth mwy integredig, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i sefydlu ‘blaen siop’ – h.y. pwynt canolog i fusnesau gael cymorth o dan un brand. Byddai brandio unedig, gyda swyddogion ‘y tu ôl i’r llenni’ yn gyfrifol am gyfeirio busnesau at y gwasanaethau mwyaf priodol, yn mynd i’r afael â’r broblem fod cloddfa ddryslyd wedi’i chreu ar gyfer busnesau o ran yr ystod o wasanaethau a chyfryngwyr y disgwylir iddynt lywio drwyddynt.

5.25 Argymhelliad 3: Ystyried ymgorffori’r gwaith o reoli cyfrifon busnes ar gyfer cymorth bwyd a diod o dan ymbarél Busnes Cymru. Gallai Busnes Cymru fod yn bwynt mynediad canolog, a byddai hyn hefyd yn ychwanegu’r fantais o alluogi Llywodraeth Cymru i reoli teithiau busnesau drwy’r cymorth a gynigir. O’i wneud yn effeithiol, byddai hyn yn osgoi dyblygu rhwng yr ymyriadau sy’n benodol i’r sector bwyd a diod a’r cymorth busnes mwy cyffredinol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. I gyd-fynd â hyn bydd angen buddsoddi digonol mewn brysbennu canolog a rheoli cyfrifon busnes (gweler Argymhelliad 1), i sicrhau bod y broses yn cael ei rheoli’n effeithiol.

5.26 Argymhelliad 4: Sicrhau hyblygrwydd i gyrff cyfryngol ymgysylltu â busnesau newydd. Mae llawer o’r cydberthnasoedd rhwng busnesau a’r sefydliadau cyfryngol a roddodd gymorth yn y blynyddoedd diwethaf wedi hen ennill eu plwyf. Yn unol â hynny, dylai fod digon o hyblygrwydd i’r cyfryngwyr ymgysylltu â busnesau’n uniongyrchol.

5.27 Argymhelliad 5: Nodi’r gynulleidfa darged. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer i weld pa ffordd fyddai orau i dargedu’r cymorth at y busnesau a’r is-sectorau mwyaf priodol. Er enghraifft, mae buddsoddi mewn is-sectorau lle mae’r farchnad yng Nghymru eisoes yn orlawn yn debygol o gael effaith ‘dadleoli’ fawr (h.y. tynnu cyfran o’r farchnad oddi wrth gystadleuwyr Cymreig), ac felly cyfyngedig fyddai’r elw

economaidd i Gymru. Mae ymchwil diweddar yn awgrymu bod buddsoddi mewn busnesau llai yn cael effaith colledion uwch (h.y. nid yw'r gwerth economaidd yn cael ei gadw yng Nghymru), sydd hefyd yn arwain at elw is. Ymhellach, os oes pwyslais parhaus ar gefnogi 'busnesau sydd â photensial twf uchel', a chreu llwybr gwell o ehangu cwmnïau micro i rai bach, ac o fach i ganolig, yna dylai fod diffiniad cliriach a gwell mecanweithiau ar gyfer nodi a thargedu cymorth at fusnesau sydd â'r potensial mwyaf i dyfu.

5.28 Argymhelliad 6: Buddsoddi mewn ymgyrch farchnata i gyrraedd y gynulleidfa darged. Unwaith y bydd y gynulleidfa darged wedi'i sefydlu, dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch farchnata ragweithiol i gyrraedd y busnesau hynny (gan gynnwys busnesau na fyddent fel arfer yn dod yn ymwybodol o'r cymorth wrth ddibynnu ar y sianeli arferol yn unig). Byddai hyn hefyd yn helpu i fynd i'r afael â mater y 'rhai arferol' sy'n aml yn ymgysylltu â'r cynlluniau cymorth.

5.29 Argymhelliad 7: Gwella'r targedu ar y cymorth. Yn sgil yr amcan polisi presennol o greu mwy o dwf yn economi Cymru, dylai Llywodraeth Cymru dargedu cymorth at fusnesau ac is-sectorau a all helpu i gyflawni'r amcan hwnnw. Yn ogystal, dylid cyflwyno mecanweithiau i gyflawni amcanion strategol eraill: sef gwella gwaith teg, enw da a safonau. Mae camau eisoes yn cael eu cymryd i gyflawni hyn, drwy i Lywodraeth Cymru ofyn i fusnesau a gynorthwyir lofnodi contract economaidd; er ein bod yn deall nad yw hyn yn cael ei gymhwyso'n gyson. Felly, mae angen gweithredu'r broses hon yn fwy cyson, a gallai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu camau gorfodi cadarnach ar gyfer mesurau o'r fath, megis drwy dargedau caled a chymalau adfachu.

5.30 Argymhelliad 8: Pennu llwybrau a pharamedrau cliriach ar gyfer taith busnes. Bydd buddsoddi er mwyn cyflawni'r swyddogaeth rheoli cyfrifon busnes yn ganolog yn galluogi Llywodraeth Cymru i lunio cynllun hirdymor ar gyfer y busnesau sy'n cael eu cefnogi, gyda phroses glir o ddatblygu gam wrth gam. Byddai angen paramedrau ac amserlenni clir i gyd-fynd â hyn, er mwyn sicrhau adegau pontio ac ymadael clir.

5.31 Argymhelliad 9: Mynd i'r afael â bylchau yn y cynnig. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno cynlluniau penodol i fynd i'r afael â rhai o'r prif fylchau a nodwyd gan randdeiliaid – neu o leiaf, ganolbwyntio'n sylweddol arnynt o fewn cynlluniau presennol. Gallai hyn gynnwys cymorth i gynyddu cyfleoedd caffael, ac ehangu'r

cynllun peilot ar gyfer graddedigion busnes i annog mwy o raddedigion (yn enwedig mewn cyllid a thechnoleg bwyd) i ymuno â'r sector.

5.32 Argymhelliad 10: Mynd i'r afael â gwendidau yn y gadwyn gyflenwi. Un o'r prif faterion sy'n arwain at 'golledion' yn y sector bwyd a diod yw'r prinder diwydiannau ategol o safon yng Nghymru. Bydd buddsoddi yn y diwydiannau hyn yn helpu i gadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru; er enghraifft, byddai buddsoddi i gynyddu argaeledd pecynnau yn lleol o fudd i ystod o farchnadoedd yn y sector bwyd a diod.

5.33 Drwyddi draw, mae'r pecyn cymorth i fusnesau bwyd a diod sydd wedi'u hariannu gan yr RDP wedi'i gynnal yn effeithiol ac wedi cyflawni'r canlyniadau dymunol, gan gyfrannu felly at y twf uchel a welwyd yn y sector yn ystod y cyfnod hwn. Gan amlaf mae'r cynlluniau wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd ac wedi sicrhau cyfatebolrwydd da, er bod cyfle i wella hyn ymhellach yn y rhaglen weithgaredd nesaf. Mae camau eisoes wedi'u cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, credwn y byddai gweithredu'r argymhellion a amlinellir uchod yn gwella'r cymorth a gynigir ymhellach, ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion strategol yn well.

## Atodiad 1: Cynlluniau a phrosiectau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad

| Enw'r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o'u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi'i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi'i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Menter Moch Cymru | Cefnogi a datblygu'r sector moch yng Nghymru drwy ddod â phartneriaid cadwyn gyflenwi ynghyd i gynyddu cyfleoedd ehangu, datblygu marchnadoedd newydd, cefnogi newydd-ddyfodiaid, a darparu hyfforddiant, trosglwyddo gwybodaeth a chymorth busnes i gynhyrchwyr presennol. | Yn fras | Do | Cefnogaeth uniongyrchol i is-sector bwyd a diod (cynhyrchu cig) |
| Cynllun Eidion Integredig CFfI | Asesu potensial sefydlu cadwyn gyflenwi cig eidion Cymreig wedi'i hintegreiddio'n llawn, ac yn cynnwys buchesi godro ac eidion, er mwyn gwneud y gorau o botensial genetig a pherfformiad oes. | Yn fras | Do | Cefnogaeth uniongyrchol i is-sector bwyd a diod (cynhyrchu cig) |
| DiscoverDelicious.Wales | Prosiect cydweithredu peilot i brofi pa mor ymarferol fyddai llwybr wedi'i hwyluso i'r farchnad ar gyfer cynhyrchwyr a chynhyrchwyr bwyd bach ac annibynnol, gan ddefnyddio mecanweithiau gwerthu uniongyrchol (gwyliau ac e-fasnach) o dan yr enw brand ymbarél DiscoverDelicious.Wales, wedi'i gefnogi gan frand marchnata arloesol, integredig. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd a diod |
| Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth | Datblygu ac asesu strategaethau ymgysylltu newydd i gynyddu proffidioldeb a gwytnwch y sector llaeth yng Nghymru. | Yn fras | Do | Cefnogaeth uniongyrchol i is-sector bwyd a diod (cynnyrch llaeth) |
| Rhaglen Datblygu Cig Coch | Yn y rhaglen roedd tri phrosiect oedd â'r nod o dyfu'r sector cig coch, yn cynnwys gweithgareddau i hyrwyddo rheolaeth ragweithiol ar iechyd y ddiadell a'r fuches, cynhyrchu gwelliant | Yn fras | Do | Cefnogaeth uniongyrchol i is-sector bwyd a diod (cynhyrchu cig) |

| Enw'r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o'u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi'i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi'i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| | genetig hirdymor trwy dechnoleg DNA, a helpu i gynhyrchu cynhyrchion o ansawdd gwell. | | | |
| Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy Bwyd a Diod Cymru | Cefnogi ehangu busnesau drwy roi cymorth un-i-un ac un-i-lawer, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyllid. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd a diod |
| Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) | Buddsoddiadau cyfalaf mewn offer prosesu, ynghyd â rhai costau cysylltiedig. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru i fod yn gynllun blaenllaw |
| Prosiect HELIX | Cynnal gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth yn canolbwyntio ar arloesi, strategaeth bwyd ac effeithlonrwydd, gyda'r nod o gynyddu cynhyrchiant a lleihau gwastraff yn y gadwyn fwyd. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru i fod yn gynllun blaenllaw |
| Cywain –busnesau yn cydweithio er elw | Cefnogi busnesau bwyd a diod sydd eisiau tyfu, gan gynnwys cymorth dwys i fusnesau newydd a microfusnesau sy'n ehangu, ynghyd â chymorth clwstwr i fusnesau bach a chanolig eu maint. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru i fod yn gynllun blaenllaw |
| Tyfu Cymru – Growing Wales – Maniffesto Garddwriaethol ar gyfer Cymru | Cefnogi busnesau garddwriaeth fasnachol trwy hyfforddiant, trosglwyddo gwybodaeth, a gweithgarwch rhwydweithio, gyda ffocws penodol ar fusnesau â photensial ar gyfer twf uchel. | Yn fras | Do | Cefnogaeth uniongyrchol i is-sector bwyd a diod (garddwriaeth: bwytadwy yn bennaf) |
| Sgiliau Bwyd Cymru | Cefnogi busnesau i sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau a'r hyfforddiant cywir i gryfhau'r diwydiant yng Nghymru. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru i fod yn gynllun blaenllaw |
| Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd (RBISF) | Darparu cymorth cyfalaf ar gyfer gweithgareddau prosesu bwyd. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd a diod |
| Larder Cymru | Cynyddu faint o fusnesau bwyd Cymru sy'n caffael cytundebau yn y sector cyhoeddus. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd a diod |

| Enw'r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o'u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi'i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi'i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Neges@Home | Creu bocsys 'bwyd lleol' i roi ymdeimlad o le i ymwelwyr trwy gynnyrch lleol. Y brif farchnad darged oedd twristiaid sy'n aros mewn llety hunanarlwyo. | Uniongyrchol berthnasol | Do | Cymorth uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd a diod |
| Cydweithredu a Datblygu Cadwyn Gyflenwi Twristiaeth Bwyd Cymru | Cael darparwyr gwasanaethau a chynnyrch twristiaeth bwyd amrywiol yng Nghymru (yn cynnwys gwyliau bwyd, digwyddiadau bwyd a siopau ffermydd) i gydweithredu a chydweithio. | Yn fras | Naddo | Heb lwyddo i ymgysylltu â nhw |
| Economi Gydnerth - Cadwyni Cyflenwi Lleol | Gwaith ymgysylltu, datblygu gallu, ymchwil drylwyr a dichonoldeb i oresgyn y rhwystrau i gadwyni cyflenwi byrrach ar gyfer nwyddau tir, deall anghenion sectorau BBaCh perthnasol (e.e. lletygarwch, manwerthu) a threialu dulliau ymgysylltu newydd. Datblygu cyfres o gynlluniau ar gyfer gweithredu cydweithredol. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Yn canolbwyntio fwy ar ymchwil - Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |
| Gardd Farchnad Glanyrafon - Cynhyrchion llysiau organig sych | Datblygu a chyflenwi cynhyrchion llysiau sych fel cawliau a chyflasynnau i ddefnyddwyr a lleoliadau lletygarwch a manwerthu yng Nghymru. Buddsoddi i greu rhwydwaith o gyflenwyr lleol, proseswyr a chwsmeriaid lleol. Y nod yw sefydlu model gweithio hyfyw ar gyfer garddwriaeth organig ar raddfa fach yng Nghymru. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Yn canolbwyntio fwy ar ymchwil ac ar gwsmeriaid |
| Clwstwr Garddwriaeth | Datblygu clystyrau priodol o fusnesau cynhyrchion garddwriaeth sy'n gweithredu mewn cadwyni cyflenwi byr. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar leihau gwastraff a sicrhau cymaint o elw â phosibl drwy wella oes silff a lleihau colledion cynaeafu, sy'n gyfyngiadau mawr ar dwf busnesau. | Yn fras | Naddo | Heb lwyddo i ymgysylltu â nhw |

| Enw’r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o’u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi’i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi’i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Cadwyn Gyflenwi Cig Adar Hela Cymru | Nodi a gwerthuso’r potensial ar gyfer cadwyni cyflenwi byr cynaliadwy, marchnadoedd lleol a gwerthu a bwyta mwy o helgig yng Nghymru. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Yn canolbwyntio fwy ar ymchwil ac yn weddol ‘niche’ – Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |
| Datblygu clystyrau o dyfwyr tatws Sarpo yng Nghymru | Cydweithio rhwng Sarpo Potatoes Ltd a’r Sustainable Farming Consultancy i ddatblygu clystyrau o dyfwyr hadau a thatws i’w bwyta sy’n gwrthsefyll firysau a malltod i helpu i fodloni’r galw cynyddol yn y farchnad. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Darpariaeth cymorth ‘niche’ iawn |

| Enw’r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o’u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi’i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi’i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Astudiaeth gwmpasu ar gynhyrchu, lleoliad a defnydd amgen | Nodi a gweithio gyda chynhyrchwyr caws micro/BBaCh yng Nghymru (buwch/gafr/dafad) ledled Cymru i ymchwilio i faint o faidd sy’n cael ei gynhyrchu a mapio arferion cyfredol wrth waredu maidd. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Yn canolbwyntio fwy ar ymchwil ac yn weddol ‘niche’ – Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |
| BeefQ – Ansawdd Bwyta Cig Eidion | Cynyddu ansawdd bwyta a gwerth cynhyrchu Cig Eidion Cymreig drwy brofi a dangos system raddio ansawdd carcasau fanwl yn seiliedig ar fodel Safonau Cig Awstralia (MSA). | Ddim digon perthnasol | Naddo | Yn canolbwyntio fwy ar ymchwil ac yn weddol ‘niche’ – Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |

| Enw’r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o’u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi’i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi’i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Cydweithredu ar gyfer Twf | Hybu cydweithredu ymhlith y sector diodydd yng Nghymru drwy ddull sy’n seiliedig ar glwstwr er mwyn helpu cynhyrchwyr i wneud penderfyniadau effeithiol a, thrwy fanteision cydweithredu, i dyfu’n gynaliadwy, a buddsoddi cyfalaf bob yn dipyn wrth gyflawni nodau amgylcheddol. | Yn uniongyrchol berthnasol | Naddo | Heb lwyddo i ymgysylltu â nhw |
| Dewis Gwyllt – Wild Choice | Rhoi prawf ar gadwyn gyflenwi newydd ar gyfer cynhyrchion wedi’u cynaeafu’n wyllt. Gwaith ymchwil a chwmpasu cychwynnol ar gynaliadwyedd, ac yna dwy rownd o weithgarwch peilot i arbrofi dau fodel gwahanol ar gyfer cadwyni cyflenwi cynaeafu’n wyllt; datblygu arferion cynaeafu a marchnata arloesol, a thechnolegau newydd posibl. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Yn canolbwyntio fwy ar ymchwil ac yn weddol ‘niche' – Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |
| Clwstwr Hydroponeg Gogledd Cymru | Prynu 5 uned ffermio fertigol micro i dreialu cynhyrchu dail arbenigol / cynnyrch dwyreiniol / microlysiau gyda 12 busnes / unigolyn yn y Gogledd Orllewin dros 3½ blynedd. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Yn canolbwyntio fwy ar ymchwil ac yn weddol ‘niche’ – Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |
| ABC ar gyfer Defaid a Thwristiaeth | Prosiect peilot mewn partneriaeth i gefnogi economi ffermio’r ucheldir drwy werthu rhagor o gig defaid a chynnyrch arall a gynhyrchir yn lleol drwy’r economi ymwelwyr. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |
| Cymru – Cyrchfan Bwyd | Prosiect cydweithredol (o fewn Sgiliau Bwyd Cymru), sy'n dwyn rhanddeiliaid allweddol, busnesau bwyd a busnesau twristiaeth masnachol ynghyd i ddatblygu a threialu atebion cynaliadwy i’r gadwyn gyflenwi i fusnesau sy’n gweini ac yn gwerthu bwyd o Gymru. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |

| Enw'r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o'u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi'i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi'i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Tyfu'r Dyfodol – Growing the Future | Annog pobl yng Nghymru i dyfu mwy o fwyd; hyrwyddo garddwriaeth Cymru, planhigion ar gyfer peillwyr, diogelu bywyd gwyllt, a rhinweddau tyfu planhigion ar gyfer bwyd, hwyl, iechyd a lles. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |
| Ysgol Goginio a Garddio a Chaffi Pumpkin Patch | Adnewyddu hen feudy segur i fod yn ysgol goginio bwrpasol, llety ar gyfer canolfan sgiliau gwledig a siop goffi rhyngrwyd. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |

| Enw'r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o'u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi'i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi'i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Rhaglen Strategol ar gyfer y Sector Cig Coch | Darparu adnoddau pwrpasol i arwain cydweithio yn y gadwyn gyflenwi cig coch (manwerthwyr, proseswyr, cynhyrchwyr), sefydliadau'r diwydiant ac arbenigwyr technegol, er mwyn datblygu rhaglen sector cig coch sy'n sylweddol ac yn strategol ac er mwyn sefydlu mesurau newid hinsawdd newydd, a sicrhau arloesi a newid trawsnewidiol ledled y diwydiant. | Ddim digon perthnasol | Naddo | Yn canolbwyntio fwy ar ymchwil |
| Menter Strategol Llaeth | Cynyddu proffidioldeb a chydnerthedd sector llaeth Cymru trwy leihau costau cynhyrchu trwy gynyddu effeithlonrwydd gan annog dulliau o liniaru neu addasu i'r newid yn yr hinsawdd. | Yn fras | Naddo | Heb lwyddo i ymgysylltu â nhw |
| Blas Lleol | Gan adeiladu ar dystiolaeth o angen a galw lleol, nod Blas Lleol oedd creu system fwyd lle mae ffermwyr, cynhyrchwyr a thyfwyr yn cydweithredu trwy ganolfannau/marchnadoedd cymunedol sy'n | Ddim digon perthnasol | Naddo | Diffyg cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bwyd a diod |

| Enw'r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o'u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi'i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi'i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| | darparu bwyd fforddiadwy, a dyfir/a gynhyrchir yn lleol, trwy gadwyni cyflenwi ffisegol a chymdeithasol llai. Byddai hyn yn ysgogi cydnerthedd cymdeithasol ac amgylcheddol a hunaniaeth cymunedau gwledig a chapasiti entrepreneuraidd. | | | |

| Enw'r Prosiect / Cynllun | Disgrifiad o'u gweithgarwch | Pa mor berthnasol | Wedi'i gynnwys yn yr adolygiad? | Rhesymeg pam ei fod yn berthnasol / wedi'i gynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Organig Cymru | Galluogi sector organig Cymru i ymateb yn well i'r galw cynyddol am gynhyrchion organig yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang trwy ddarparu gwybodaeth benodol am y farchnad, nodi rhwystrau i ymgysylltu trwy ddeialog rhwng busnesau a chefnogi gwell cydweithredu yn y sectorau cig coch organig, llaeth a garddwriaeth trwy weithgorau penodol i sector. | Yn fras | Naddo | Prosiect wedi'i dynnu'n ôl – heb dderbyn cyllid |
| Grant Cynhyrchu Cynaliadwy | Proses ymgeisio mewn dau gam gan gynnwys Datganiad o Ddiddordeb. Mae'n cynnwys buddsoddiadau diriaethol mewn cynhyrchu sylfaenol ar gynnyrch amaethyddol (uchafswm o 50,000, lleiafswm o 12,000). | Ddim digon perthnasol | Naddo | Ffocws amaethyddol eang |

## Atodiad 2: Canllaw Trafod ar gyfer cyfweliadau ag arweinwyr cynlluniau

### Gwerthuso FBIS & RBISF

Cefndir

Mae Wavehill wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gyflawni dau allbwn. Yn gyntaf, rydym yn cynnal gwerthusiadau crynodol annibynnol o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd (RBISF). Yn ail, rydym hefyd wedi cael ein comisiynu i gynnal adolygiad ehangach o gynlluniau'r sector bwyd / prosiectau bwyd a gynhelir o dan Gynllun Datblygu Gwledig (RDP) 2014 i 20 yng Nghymru; sef yn bennaf Cywain, Prosiect Helix, a Sgiliau Bwyd Cymru, ynghyd â'r cynlluniau FBIS a RBISF.

Rydym nawr yn cynnal y gwerthusiad terfynol, a hoffem drafod perfformiad ac effeithiau gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector, er mwyn cael barn allanol am yr angen am y cymorth, a pherfformiad wrth weithredu'r cynlluniau. Disgwyliwn i'r cyfweliad hwn gymryd tua 20-30 munud o'ch amser.

Dim ond at ddibenion yr ymchwil hwn y bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio, a hynny yn unig er mwyn cyfrannu at adroddiad gwerthuso terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r ymchwil hwn yn cael ei adrodd mewn fformat dienw. Ni fydd yn bosibl eich adnabod chi na'r sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli yn unrhyw un o gynnyrch yr ymchwil. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut y byddwn yn rheoli eich data trwy fynd i'n hysbysiad preifatrwydd yma (Wavehill).

Os ydych yn cael trafferth clywed dros y ffôn, gallwn anfon y cwestiynau atoch yn ysgrifenedig i chi eu darllen wrth i'r cyfweliad gael ei gynnal. Gallwn anfon fersiynau amgen hefyd os oes angen. Gellir cynnal cyfweliadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae croeso i chi ofyn i mi esbonio neu ailadrodd unrhyw gwestiwn os yw'n aneglur. Rwy'n hapus i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych wrth i'r cyfweliad fynd rhagddo.

**Cwestiynau ar gyfer trafodaeth**

Eich prosiect

1. A fyddech gystal â rhoi disgrifiad byr o'r prosiect sector bwyd yr ydych yn rhan o'i gynnal?
    a. Sut fyddech chi'n disgrifio'r model cyflenwi ar gyfer eich prosiect a'r math o gymorth y mae'n ei ddarparu?
    b. Pa fath o fuddiolwyr (a faint ohonynt) y mae eich prosiect yn eu cefnogi?
    c. Beth yw'r rhesymeg dros y prosiect, h.y. pam mae ei angen?
    d. Sut fyddech chi'n egluro beth mae eich prosiect yn ceisio ei gyflawni?
        i. Sut mae nod terfynol y prosiectau yn edrych?
        ii. Eglurwch y math o effeithiau economaidd ac amgylcheddol a ddisgwylir gan y prosiect.

2. Sut byddech chi'n dweud bod eich prosiect yn cyfrannu at amcanion polisi Llywodraeth Cymru a'r UE?

3. I ba raddau y mae eich prosiect yn ychwanegu gwerth at y math o gymorth sy'n bodoli eisoes ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru?
    a. Sut mae eich prosiect yn ychwanegu gwerth at gynlluniau'r FBIS a'r RBISF ac/neu'n gweithio gyda'r cynlluniau hynny?

4. A allwch chi ddisgrifio'r math o weithgareddau monitro a gwerthuso sy'n gysylltiedig â'ch prosiect?
    a. Pa fath o ddata sydd gennych chi?
    b. A oes unrhyw werthusiadau allanol wedi cael eu cynnal ar eich prosiect / ar fin cael eu cynnal?
    c. A fyddech chi'n gallu rhannu'r wybodaeth hon at ddibenion ein hadolygiad? Os ydych, pryd?

FBIS / RBISF

5. A fyddech gystal â disgrifio'ch rôl mewn perthynas â chynlluniau FBIS / RBISF?
    a. Pa ran, os o gwbl, ydych chi wedi'i gael wrth gynnal y cynlluniau?
    b. Pa mor aml y mae'r busnesau yr ydych yn eu cefnogi yn cymryd rhan yn y cynlluniau hyn?

6. Pa mor dda y mae eich prosiect neu gynllun wedi'i gynnal ar y cyd â FBIS / RBISF?
    a. Ydych chi'n credu eu bod wedi ychwanegu gwerth at y prosiect / cynllun yr ydych yn ei gynnal?
        i. Sut wnaethon nhw hynny?
    b. A oes achosion lle maent yn gorgyffwrdd?
        i. Os oes, sut mae hynny'n cael ei reoli?
7. Pa mor effeithiol y mae cynlluniau FBIS / RBISF wedi cael eu cynnal, yn eich barn chi?
    a. Ydych chi'n meddwl eu bod wedi'u cynllunio'n briodol?
        i. A oedd maint y cynlluniau grant yn briodol?
        ii. A oedd y gyfradd ymyrryd yn briodol?
        iii. A oedd elfennau eraill yn briodol, megis meysydd ariannu a gweithgareddau cymwys?
    b. Ydych chi'n meddwl bod y cynlluniau wedi cefnogi casgliad priodol o fusnesau?
8. Beth oedd prif effeithiau cynlluniau FBIS / RBISF?
    a. Allwch chi ddisgrifio enghreifftiau o'r effeithiau hyn ar unrhyw un o'r busnesau rydych chi'n eu cefnogi?
9. Pa mor bwysig yw'r cynlluniau hyn o ran helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yng Ngweledigaeth Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector?
    a. Ai dyma'r defnydd gorau o adnoddau i helpu i gyflawni'r amcanion hynny?

Cymorth bwyd a diod yr RDP

10. Beth yw eich barn am y pecyn cymorth i gynhyrchwyr bwyd a diod a ariannwyd o dan RDP 14–20?
    a. Pa mor effeithiol yw'r gwahanol ymyriadau?
    b. A oes unrhyw fylchau amlwg neu feysydd lle mae dyblygu?
    c. Sut byddech chi'n asesu'r effaith economaidd/amgylcheddol ar draws cynlluniau/prosiectau sector bwyd Llywodraeth Cymru o dan RDP 14–20?
11. Yn eich barn chi, beth yw'r prif wersi y gellir eu dysgu o ddarparu'r gwasanaethau cymorth amrywiol i gynhyrchwyr bwyd a diod drwy RDP 14–20?
    a. Beth, yn eich barn chi, yw elfennau pwysicaf y cymorth y dylid eu cadw wrth symud ymlaen?
    b. Sut hoffech chi weld y cynlluniau hyn yn cael eu cynnal yn y dyfodol?
        i. A allent fod yn fwy integredig, e.e. trwy ddefnyddio adnoddau ei gilydd, defnyddio'r un offer (e.e. systemau diagnostig a CRM), mynediad canolog i ddata ac ati?
12. Yn olaf, a oes unrhyw beth heb ei gynnwys yn y cyfweliad hwn yr hoffech ei ychwanegu, neu unrhyw beth pwysig yr hoffech sôn amdano mewn perthynas â'r gwerthusiad hwn?